891.662
H87t

TAIR DRAMA

# Yr Unig Fab

MEWN DWY ACT

# Yr Hen Iaith

# Y Melinydd

GAN

*H. O. HUGHES,*

*Cefn Mawr,*

*Llangaffo, Anglesey.*

---

CAERDYDD:
**The Welsh Outlook Press**
MCMXIV.

celtic G. E. Parry 16 N 22 Welsh Outlook
27A p73 3KmW
891.662
H87t
507853



# Rhagymadrodd.

YSGRIFENNWYD y tair drama dilynol ar gyfer cwmniau pentrefol. Ceisiwyd osgoi trefniadau cywrain ynghyd o newid golygfeydd ar y llwyfan am fod y gôst ynglyn a hynny yn llethu llawer cwmni bychan ar ei gychwyniad. Gwelir mai cymeriadau o blith gwerin Cymru a geisir eu portreadu, ac felly lleiheir y gôst ynglyn ag arwisgo'r chwareuwyr.

Gwelir ambell air fel *slapan* yn "Yr Unig Fab"—math o deisen a baratoir ar fyr rybudd gan wragedd tyddynwyr a gweithwyr yn Môn a rhanau o Arfon—sydd yn anadnabyddus mewn siroedd eraill. A chan fod yn angenrheidiol i wrandawyr drama ddeall pob gair ac awgrym o'r llwyfan ar amrantiad, anogir goruchwyliwr y llwyfan i arfer ei ddoethineb trwy newid ambell air anhysbys am air yn cyfleu cyffelyb feddwl ag sydd yn fwy dealladwy i'r gwrandawyr. Rhoddir *plan* o'r llwyfan ynghyd â'r dodrefn angenrheidiol. Dymunir i'r chwareuwyr gofio pan wneir cyfeiriadau at *dde* ac *aswy*, mae eu de ac aswy hwy feddylir pan y safont ar y llwyfan yn wynebu'r gynulleidfa.

YR AWDWR.

Digitized by the Internet Archive
in 2016

https://archive.org/details/tairdramayrunigf00hugh

# "Yr Unig Fab"

MEWN DWY ACT

GAN

H. O. HUGHES.

# *YR UNIG FAB*

*Mewn Dwy Act.*

---

*Cymeriadau.*

| | | |
|---|---|---|
| GRIFFITH THOMAS | - | Tyddynwr bychan. |
| GWEN THOMAS - | - | Ei wraig. |
| JOHN - - | - - | Ei fab. |
| JANE - - | - - | Ei ferch. |
| MR. BROWN- | - - | O'r County Police Force. |

# Yr Unig Fab

## ACT I.

*Ystafell mewn amaethdy tyddynnwr yn Sir Fôn. Dodrefn plaen, bwrdd crwn ar y llawr a chadeiriau derw wrtho. Cadair freichiau wrth y tân, ac un arall wrth y pared yn agos i'r* footlights ; horse *ddillad o flaen y tân, a dillad mab arni yn eirio. Mae sospan ar y pentan. Gwelir Griffith Thomas yn eistedd wrth y bwrdd, a'r wraig, Gwen Thomas, wrth yr* horse, *yn gwylied y llaeth yn twymno.*

---

**Griffith.** Tipin chwanag o'r llaeth 'na, Gwen.

**Gwen.** 'Does yna ddim yn y jwg ?

**Griffith.** Wela' i ddim, ond mae o'n haws i weld na'r menyn ar y frechdan yma.

(*Gwen yn tywallt y llaeth*).

**Gwen.** Sut ffair gawsoch chi heiddiw ?

**Griffith.** 'Roedd gofyn reit dda ar y gwarthaig.

**Gwen.** Gawsoch chi bris go dda am Mwynig ?

**Griffith.** Mi ges bris go lew, ond fydd o ddim llawar ar gyfar y rhent.

(*Griffith yn estyn pwrs i Gwen, a hithau'n ei roi yn nror y dresser*).

**Gwen.** 'Rhen Fwynig druan! Llawar dendiodd John bach arni hi cyn iddo fo fynd i'r Mericia.

**Griffith.** Mi grefis i ddigon arno fo aros adra i ffarmio, ond 'doedd dim yn tycio.

**Gwen.** Mi fydda yn dda gin i yn fy nghalon i weld o yma eto, ond mae'n debig i fod o yn well allan yno.

**Griffith.** 'Rodd i lythyr o'n bur galonnog. Ond mae misoedd ar hynny.

**Gwen.** Tair blynadd i heno yr aeth o i ffwrdd. Mi fydda i yn eirio 'i ddillad o'n ofalus pan ddaw y dydd heibio! (*yn troi at y dillad*) 'tydyn nhw ddim gwaeth na newydd.

**Griffith.** Tybad i fod o wedi tyfu llawar?

**Gwen.** Ofn sy arna i y bydd o yn ormod o *swell* i wisgo'r rhein. Ond mae 'i brwsio nhw a'i troi fel hyn yn rhoi cysur mawr i mi. Amsar difir oedd hi pan oedd o'n fachgan a Jane yn dechra cerddad.

**Griffith.** Lle mae Jane? wyr hi 'mod i wedi dwad adra o'r ffair?

**Gwen.** Yn y siambar yn trin i het. Mae'r ffasiwn wedi newid eto; (*yn gwaeddi*) Jane!

**Jane.** (*yn ateb o'r siambr*) Be sy', mam?

**Gwen.** Mae dy dad wedi dwad adra. (*Jane yn brysio i'r ystafell at ochr ei thad*).

**Jane.** Wyddwn i ddim ych bod chi yma. Ydach chi wedi peidio blino, 'nhad?

**Griffith.** Flinis i ddim gormod i anghofio fy negas, 'ngenath i. (*Yn rhoi* parcel *bychan iddi*). Dyma fo, y ruban glas neisia oedd yn London Hows.

(*Jane yn agor y* parcel, *ac yn edrych ar y ruban. Gwen Thomas yn tywallt llaeth poeth i'r jwg*).

**Jane.** Diolch yn fawr i chi, 'nhad. Mae o'n ddel iawn, ond tydi o ddim yn llawn y *right shade*.

**Gwen.** Mi neith y tro'n iawn. 'Does neb mor byrticilar yn yr ardal hefo rubana a Jane.

**Griffith.** 'Does neb yn gwisgo mor smart, nag oes, 'ngenath i?

**Gwen.** Peidiwch a'i gwirioni hi, mae hi'n colli gormod o'i hamsar hefo'r ffasiyna esys. Dos i orffan dy het, Jane, rhag llosgi chwanag o gnwylla heno eto.

**Jane.** (*Yn myned*) Fydda i ddim yn hir. Diolch yn fawr i chi 'nhad.

(*Jane yn myned yn ol i'r siambr*).

**Griffith.** Peidiwch a bod mor siarp hefo'r lodas.

**Gwen.** Rhaid i mi fod, ne mi fydd yn siwr o gael i dyfetha gin i thad.

**Griffith.** 'Roeddach chi'n wahanol iawn hefo John.

**Gwen.** A chitha 'n i ddwrdio fo'n ddibaid nes yr aeth o i ffwrdd.

**Griffith.** 'Chydig fudd geir drwy agor hen friwia.

**Gwen.** Peidio i hagor nhw yn y dechra oedd isio.

**Griffith.** O'r gora, tawad y calla.

**Gwen.** 'Rydw i am 'neud. Gywsoch chi ddigon o fwyd?

**Griffith.** Do. (*Gwen yn trin y dillad, ac yn troi at y gŵr*).

**Gwen.** Be ddeudodd Robat 'y mrawd?

**Griffith.** Mi wrthododd yn bendant yn helpu ni efo'r rhent, er i fod o wedi cael pris ucha'r ffair am i fustych.

**Gwen.** Un cwta ydi Robat. Beth newch chi rwan?

**Griffith.** Mynd ar ofyn gŵr y siop am wn i.

**Gwen.** A'r bil blawd heb i dalu?

**Griffith.** Rhaid i cael nhw o rwla. 'Does yma mo'r hannar.

**Gwen.** A'r moch ddim yn agos yn barod i gwerthu.

**Griffith.** Dwad rwsut bydd y rhent bob blwyddyn.

**Gwen.** Wn i yn y byd o ble 'leni.

**Griffith.** Gofid sydd i gael o hyd.

**Gwen.** Beth arall sy'n ych poeni chi?

**Griffith.** Gweld mab y Fron Ganol yn feddw yn y ffair.

**Gwen.** Pa help sy gynnoch chi i hwnnw?

**Griffith.** Dim. Ond y fi geith y gwaith o'i geryddu o—y peth anhowsa yn y byd gin i neud.

**Gwen.** Rhaid ceryddu os torrodd o'r rheola. Waeth mab pwy ydi o.

**Griffith.** Cofiwch am i dad a'i fam o.

**Gwen.** Ma Margiad i fam yn ddigon pen-uchal a lartsh. Mi gafodd lawar *visit* yma, ond ches i rioed wadd i'r Fron Ganol i'r *visit*, er fod rhai heb fod ddim gwell na minna wedi cael..

**Griffith.** Peth bychan iawn ydi peth fel'na. Ond peth mawr fydda cychwyn y bachgan ar y ffordd lydan.

**Gwen.** Lol i gyd. Be mae rhiw hogia fel Ned Parri yn i hitio?

**Griffith.** Cofiwn am i rieni o hefyd.

**Gwen.** Na, 'n wir, isio tynnu Margiad i lawr dipin sy'. Mi fydd yn iechid mawr iddi hi.

**Griffith.** Peidiwch a bod yn wamal hefo petha difrifol, Gwen. Be pe basa un o'n plant ni wedi cychwyn i'r cyfeiriad chwith?

**Gwen.** Un o 'mhlant i 'n wir. 'Does dim perig.

(*Drws y tŷ yn agor yn sydyn, a John y mab yn dyfod i'r ystafell. Saif yn ofnus yn agos i'r drws. Golwg tlawd, budr, a charpiog ar ei ddillad, ei wedd yn llwyd ac anghennus. Gwen a Griffith yn edrych i gyfeiriad y drws*).

**Griffith.** Pwy sy 'na? Dowch i miawn o'r drws!

(*John yn neshau ychydig ymlaen, ei gap yn ei law a golwg euog arno*).

**Gwen.** Pwy wyt ti?

**John.** 'Tydach chi ddim yn 'y nabod i, mam?

**Gwen.** John, 'y machgan bach i.

(*Y fam yn ei groesawu, a'i dad yn edrych yn ddifrifol arno*).

**Griffith.** Tramp wela i, budur a charpiog.

**Gwen.** Peidiwch a bod yn galad, Griffith, cofiwch ma'ch mab ych hun ydi o.

**Griffith.** Cheith dim tramp fod yn fab i mi. Dos allan i'r ffosydd, grwydryn!

**John.** Rhowch noddfa am chydig. Mae'r *police* ar f'ol. Glywch chi nhw? Mae nhw wrth ymyl. Os dalian nhw fi, mi ddaw peth o'r cwilidd i chitha.

**Gwen.** Cha nhw ddim dy ddal di, machgan i, tra bydd anadl yn dy fam.

**Griffith.** Fy mab yn droseddwr ! yn ffoi rhag cosp cyfraith i wlad !

**John.** Syrthio i gwmpeini drwg ddaru mi, ar ol glanio yn Lerpwl..

**Gwen.** Wyddwn i o'r gora ma rhiw hen gnafon odd wedi hudo'r hogyn druan.

**Griffith.** Be sy i neud ? Y Nefoedd i hunan wyr.

**John.** Ciddiwch fi'n rhwla nes bydd y plisman wedi mynd heibio.

(*Gwen yn gafael ym mraich John, a Jane yn dyfod i mewn o'r siambr ac yn edrych arnynt*).

**Jane.** Peidiwch a gafal miawn tramp, mam.

**Gwen.** Dy frawd John ydi o.

**John.** (*Yn troi at ei chwaer*) Jane bach !

**Jane.** John annwyl, be sy wedi digwydd ?

(*Jane yn gafael yn ei law arall, gan sefyll wrth ei ochr. Y tad a'r mab yn wynebu ei gilydd*).

**Griffith.** Rwan, distewch, gael imi i glywad o. Ma'n debig fod gynno fo stori reit ddel.

**Gwen.** Danghoswch chydig o deimlad tad, Griffith !

(*Griffith Thomas yn eistedd wrth y pared gan roddi ei benelin ar ei lin a'i law yn cuddio 'i wyneb*).

**John.** Ar ol derbyn 'y nghyflog, mi eis hefo dau longwr i dafarn. Mi ges rwbath i yfad 'nath i mi anghofio popeth. Mi ges fy hun, riwdro yn y nos, yn crwydro'r strydodd, bron rhewi gin annwyd, heb ddim ond y carpia yma am dana.

**Griffith.** Fy mab yn feddwyn a chrwydryn ! Ergid drom i galon tad ydi dy stori di, John.

**John.** 'Rydw i bron a thagu isio diod. Ga'i lymad, Jane ?

(*Gwen yn estyn y jwg iddo oddiar y bwrdd*).

**Gwen.** Mae llaeth cynnas yn hon, machgan tlawd i.

(*John yn cythru i'r jwg gan yfed y llaeth yn llwyr. Yna yn sychu ei enau a'i lawes a rhoi y jwg yn ol ar y bwrdd*).

**Jane.** Tydi John ddim mor ddrwg wedi'r cwbwl, 'nhad.

**Griffith.** Am feddwi ma'r heddgeidwaid ar d'ol di ?

**Jane.** Y plisman ar ych ol, John ?

**John.** Mi fethis gael gwaith, a dim i fyta ond amball i grystyn sych. Yna mi ddechreuis hiraethu am hen fynyddodd Cymru ag mi gychwynnis i gerddad i cyfeiriad nhw. Ar ol llawar o helbul a diodda mi gyrhaeddis y Sir yma, ag mi daliwyd fi gin ddau ddyn arall. Mi ofynnis am fwyd, ag mi addawson beth os

danghoswn i lwybyr iddy nhw at y Plas sy ar làn y môr. Mi neis inna hynny, ond mi aethon i ffwrdd heb roi tamad i mi, ond chwerthin am 'y mhen.

**Gwen.** 'Y machgan tlawd i.

**John.** Wedi llwyr flino mi orweddis wrth ochor y clawdd, ag mi gysgis. Mi freuddwydis fod yr haul yn llosgi fy ngwynab ag mi ddeffris. 'Roedd hi'n dechra twllu, ag mi welis ma gleuni o lantarn plisman odd o. Dyma fo'n gweiddi, " Dyma un o ladron y Plas, rhowch help i ddal o ! " Mi ruthris heibio iddo fo i'r coed, lle collodd o fi. Mi clywis o yn chwibianu, ac mi glywis leisia erill hefo fo.

**Griffith.** Ydi dy stori di'n berffaith wir ?

**Gwen.** 'Ddeudodd o rioed gelwydd, beth bynnag ydi i feia fo.

**John.** Diolch am y'ch geiria, Mam. Ar ol gadal y coed, mi redis drwy'r gors a'r afon a'r hesg nes gwelis i leini f' hen gartra, ag mi lanwodd fy nghalon o hirath a gobaith. Hirath am ych gweld a gobaith y cawn i 'niogelu gynnoch chi unwaith yn rhagor ar aelwyd 'y nhad.

**Gwen.** Mi nawn ein gora, John bach.

**Griffith.** Chweilith y cwnstabl byth mo'r stori.

**Gwen.** Os na chweilith i rieni o'r stori, 'does dim

disgwyl i ddyn diarth neud. Ceisiwch feddwl am rhiw gynllun i achub o o'i gafal nhw.

**John.** Rhowch un *chance* i mi, fydd byth yn 'difar gynnoch chi.

**Gwen.** Os *dim* teimlad ynoch chi, Griffith?

**Griffith.** Os, Gwen, nes mae o bron a fy llethu, ond sut cysona i fy nheimlad fel tad a 'nledswydd fel dyn? Mi welaf o 'mlaen f'unig fab, mi wela hefyd droseddwr cyfraith 'y ngwlad. Plentyn yn gofyn tosturi a lleidar yn erfyn help dyn gonast i guddio 'i weithredodd.

**John.** Gwelwch, mi welwch ddyn syrthiodd i feddod, ond nid yrioed i ladrad. Os na chweiliwch chi fi, mi ro' i f'hun i'r cwnstabl. Ydach chi'n 'y nghweilio i?

**Griffith.** Ydw, John; ond be na' i?

(*Clywir curo wrth y drws. Pawb yn gwrando; curir drachefn; Jane yn ddistaw yn bario 'r drws*).

**Gwen.** Pwy sy 'na?

**Brown.** Constable Brown o'r *County Police.*

(*Symud John a Jane yn ddistaw i'r siambr. Gwen Thomas yn estyn yr* horse *a'r dillad ar eu hol, gan gau arnynt*).

**Griffith.** Dowch i miawn, Mr. Brown.

**Brown.** Ma clo ar y drws.

(*Gwen yn agor y drws a'r heddgeidwad yn dyfod i mewn.*)

**Gwen.** Weils i 'rioed fel mae'r hen ddrws yna wedi mynd. Mi fydd mymryn o wynt yn i agor o. Mae'r gŵr yma yn sôn bob dydd am fynd a'r gliciad i'r efal. Rhaid i ni gadw clo ne rewi gan annwyd, Mr. Brown.

**Brown.** Mi naethoch yn dda gloi'r drws heno, Mrs. Thomas.

**Gwen.** Be sy'n bod felly?

**Brown.** Mi dorrodd lladron i'r Plas pnawn heiddiw. Mi lwyddodd dau o honyn nhw o ddianc, ond ma'r trydydd wedi ymgiddio yn y bildings yma.

**Griffith.** Ydach chi'n i nabod o, Mr. Brown?

**Brown.** Welis i rioed mono fo o'r blaen: dyn lled ifanc, cap am i ben, golwg lled wael arno, dillad carpiog a blêr, rêl tramp.

**Gwen.** Lle tlawd iawn i leidar sy yma, Mr. Brown.

**Brown.** Lle hynod dda i 'mgiddio, Mrs. Thomas.

**Gwen.** Ag mi gwelsoch o felly?

**Brown.** Mi ro 'ngair fel cwnstabl nad ydi o ddim ymhell.

**Gwen.** Maddeuwch i mi, ond yn siŵr 'rydach chi'n camgymeryd y tro yma, Mr. Brown.

**Brown.** Mi gefis ormod o brofiad yn y *force* i neud *mistake*. Mi rydw i am ofyn ych help chi, Griffith Thomos, i fynd a fo i'r *lock-up*.

**Griffith.** F' help i! na chewch. Be os ma dyn dieuog ydi o?

**Brown.** Y *Court of Justice* sy i benderfynu hynny. 'Rydw i'n galw am ych help chi, *in the King's name*, Mr. Thomas.

(*Distawrwydd am foment. Yna clywir twrw yn y siambr*).

**Brown.** Mae o wedi torri i miawn i'ch tŷ. Mi dalia i o rŵan.

(*Mae yr heddgeidwad yn symud yn araf a distaw i gyfeiriad drws y siambr; ond caiff Gwen y blaen arno gan sefyll rhyngddo a'r drws*).

**Gwen.** *Bedroom* y ferch, Mr. Brown,—newid i dillad ma hi; (*yn gwaeddi*) Jane, be odd y twrw yna?

**Jane** (*o'r siambr*). Troi'r gadar ddaru mi, mam.

**Gwen.** Paid a bod mor drwsgwl, 'ngenath i. 'Rodd dy dad a minna yn meddwl fod y tŷ'n dwad i lawr. Be wyt ti'n i neud?

**Jane.** Newid 'y nillad, mam.

(*Brown yn rhoi amnaid a'i law ei fod wedi ei fodloni. Y ddau yn symud yn ol*).

**Brown.** *My mistake*, Mrs. Thomas.

**Gwen.** Chi ydi'r plisman cynta ddaru gyfadde gneud *mistake*, Mr. Brown.

**Brown.** 'Rydw i'n disgwyl ych c'northwy. Ne rhaid i chi gymryd ych cospi.

**Gwen.** Peidiwch a chadw Mr. Brown, Griffith. Cofiwch i fod o ar i ddiwti.

**Griffith.** Lle ma'r lantarn.

(*Brown yn rhoi ei law ar ei* Bull's eye lantern, *ac yn ei dangos*).

**Brown.** Peidiwch a dwad a g'leuni arall, ond os ydach chi'n teimlo'n wan cymrwch ffon.

**Griffith.** Ma 'nheimlad i wedi cynhyrfu, ond nid gan ofn, Mr. Brown !

**Gwen.** Chwiliwch y bing, Griffith, ac os daw y lleidar i'r golwg (*yn rhoi ffon iddo*), pastwn ar i gefn o. (*Brown a Griffith yn mynd allan, Gwen yn eu gwylied yn ddistaw, yna yn cau a bario drws y tŷ ac yn agor drws y siambr*). Dowch allan yn reit ddistaw. Ma'r plisman wedi mynd.

(*Jane yn dyfod i'r ystafell a John yn ei dilyn. Gwelir fod John wedi newid ei ddillad, ac yn edrych yn smart. Mae'r tri yn eistedd, John yn y canol*).

**John** (*yn ofnus*). Lle mae'r plisman ?

**Gwen.** Yn chwilio'r beudy a'r stabal.

**John.** 'Tydi hynny ddim yn waith mawr. Rŵan ydi'r cyfla i ffoi.

**Gwen.** 'Chest ti ddim amsar i ga'l bwyd.

**Jane.** Mae o wedi byta rhiw chydig.

**John.** A dyma'r rest yn 'y mhocad i.

**Gwen.** Lle d'engi di, John bach?

**Jane.** Ydi o am yn gadal ni mor fuan?

**John.** Ydw, a gadal 'y ngwlad hefyd. Diolch i'r dillad a'r het yma, tydi hynny ddim yn anodd, os ca' i dipyn o flaen ar y plisman.

**Gwen.** Ychydig fyddylis i pan yn eirio'r dillad yr iws gowsan nhw (*Gwen yn wylo*).

**John.** Maddeuwch i mi cyn cychwyn.

**Gwen.** 'Rydw i wedi gwneud pan oeddat ti yn dy racs, ond ma' nghalon i bron torri.

**John.** Rhaid mynd. Tasa modd i mi gyrradd Caergybi!

**Jane.** Cymrwch 'y meisicl i, John.

**John.** Be os collwch chi o?

**Jane.** Pa ots os diangwch chi, trw help *y bike*.

**John.** Sut y medra i ddiolch i chi, Jane?

**Gwen.** Trwy gofio am dani pen ddaw temtasiwn i dy gyfarfod di eto.

**John.** Anghofia'i byth monoch chi ych dwy.

(*John yn sychu ei lygaid*).

**Jane.** Bydd y *bike* wrth lidiart y lôn miawn dau funud, John.

(*Jane yn agor y drws yn araf ac yn mynd allan*).

**Gwen.** Oes gin ti riwfaint o arian, machgan i?

(*Gwen yn estyn y pwrs o'r dror*).

**John.** Nâg oes, mam. Ddim dima.

**Gwen.** Cymar y rhein yn ofalus. Arian gafodd dy dad am 'r hen fuwch ydyn nhw.

**John.** Nid Mwynig?

**Gwen.** Ia. Cofia fod yr hen Fwynig yn dy helpu di, fel y rest o'r teulu.

**John.** Gwell fasa i mi farw na rhoi'r fath boen i bawb.

**Gwen.** Nâgi, gwell ydi byw a phrofi dy fod yn ddyn.

**John.** Os ca' i ddianc, mi ro 'ngair, na chewch chi byth eto, trwy gymorth y nefodd, achos i gwilyddio o'm hachos i.

**Gwen.** Mi wn dy fod ti'n deud y gwir, 'machgan tlawd i.

**John.** Beth am 'y nhad ?

**Gwen.** 'D ath o rioed i wely heb gofio am John, 'deith o ddim eto chwaith.

(*Y ddau yn dychryn wrth glywed y drws yn agor a Jane yn dyfod i'r ty*).

**Jane.** Ma nhw wedi mynd i'r shed isa. Rŵan ydi'ch cyfla chi, John.

**John.** Hannar momant. Ydi'ch enw chi ar y *bike* ?

**Jane.** Ydi !

**John.** Mi welan 'mod i wedi 'i ddwyn o.

**Jane.** Taflwch o i'r môr yng Nghaergybi.

**John.** I'r môr ?

**Jane.** Be ydi colli *bike* i gyferbynnu ag achub brawd ?

**Gwen.** Paid a phoeni, machgan i ; dos, rhag ofn iddyn nhw dy weld ti.

**Jane.** Mae *box matches* yn y *tool bag*, a'r lamp yn barod, ond peidiwch a'i gola hi nes cyrradd y ffordd bost.

**John.** Ffarwèl, mam bach !

**Gwen.** Ffarwèl, machgan annwyl i.

(*Y ddau yn ffarwelio, Jane wrth y drws*).

**Jane.** Dowch ar f'ol i, John, ac os clywith y plisman dwrw, mi waedda inna " Ydach chi wedi ddal o, Mr. Brown ? "

(*Jane a John yn mynd allan. Gwen yn mynd at y drws ar eu hôl, yna yn dyfod at y bwrdd gan roi ei breichiau arno a chuddio ei hwyneb. Jane ar ol tipyn o amser yn dyfod yn ol*).

**Jane.** Mae o'n reit saff, mam ; da chi, peidiwch a galad i'r plisman weld ôl dagra ar ych gwynab chi. Ma dŵr glân a channwyll yn y siambar. Ewch yno cyn iddo fo'ch gweld chi.

(*Jane yn arwain ei mam i'r siambr, yna yn dechreu gosod y bwrdd, rhoi llestri arno, etc. Daw Griffith i mewn yn fuan, a Brown yn ei ddilyn*).

**Brown.** Hylô, Miss Thomas, 'roeddwn i'n meddwl ych bod chi wedi mynd i gysgu cin hyn.

**Jane.** Dodd dim modd cysgu wrth glywad y drysa 'n cael i cau a'i hagor. Welsoch chi o, Sarjant ?

**Brown.** *Constable Brown*, ar hyn o bryd, Miss Thomas ; ond os dalia i y *burglar* mi gaf *promotion without a doubt.*

**Griffith.** 'Rydw i yn siŵr y cymrith Gwnstabl Brown ddysglad o de.

**Brown.** Dim diolch, ar hyn o bryd, 'r ydw i ar 'y niwti.

**Griffith.** Tydi hi'n amsar noswyl bellach.

**Brown.** Pen fydd y rest o'r byd wedi noswylio bydd

y boneddigion rydw i yn i gwyliad yn dechra ar i gwaith, Griffith Thomas.

(*Jane yn mynd at ddrws y siambr*).

**Jane.** Mae'r cwnstabl yn mynd, mam.

(*Gwen yn dyfod i'r ystafell*).

**Gwen.** 'Steddwch i lawr am funud.

**Brown** (*yn edrych ar ei* watch). *Good night*, bawb. Mi fasa'n dda gin i aros, ond rhaid deud nos dawch. Cysgwch yn dawal, Mrs. Thomas, tydi'r *burglar* ddim yn agos.

**Gwen.** 'Rydw i'n gobeithio, o waelod 'y nghalon, i fod o'n ddigon pell, Mr. Brown bach.

(*Jane yn agor y drws a Brown yn mynd allan. Griffith a Gwen yn eistedd a golwg ddigalon arnynt. Jane yn gwylied Brown yn cychwyn, ac yna yn dyfod at ei rhieni*).

**Jane.** I gyfeiriad y plas mae Mr. Brown wedi cychwyn.

**Griffith.** Ffordd 'r ath John?

**Gwen.** Mi newidiodd i ddillad, a'i het, fedran nhw byth i nabod o.

**Griffith.** Sut yr ath o, ac i bwy gyfeiriad?

**Gwen.** Am Gaergybi ar *bike* newydd Jane.

**Griffith.** A'i henw hi ar y *bike*? Pwy persweidiodd o i fod mor ffôl?

**Jane.** Y fi fu mor ffôl a'i bersweidio, ac mor ffôl hefyd a deud wrtho fo am i daflud o i'r môr. Meddwl 'roeddwn i bydd pwy bynnag geith hyd i'r *bike* yn ddigon ffôl i gredu fod y dyn ath a fo yn y môr hefyd.

**Griffith.** Da ngenath i. Ddylis i rioed fod y fath synnwyr yn 'y nheulu i.

**Gwen.** Mi fydda i yn deud bob amsar ma tynnu ar ol teulu i mham y mae Jane.

**Griffith.** Odd gin yr hogyn druan arian yn i bocad?

**Gwen.** Mi rois i arian Mwynig iddo fo.

**Griffith.** Gwell bod yn ol am y rhent, os diangodd yr hogyn.

**Gwen.** Ia, gwell o lawar.

**Griffith.** 'Rydw i am aros ar fy nhraed. Ewch i'ch gwlâu ych dwy, ddaw ddim cwsg i f'amranta i heno.

**Gwen.** Fedra i ddim ych gadal chi, Griffith.

**Jane.** Ydach chi ddim am ddarllan pennod heno?

**Griffith.** Sut y medra i?

**Jane.** Newch chi ddim darllan rhan o bennod i mi?

**Griffith.** Pa ran ydi honno?

**Jane.** Hanas y bachgan drwg yn dwad adra at i dad, a'i dad yn madda iddo fo.

(*Griffith yn rhoi ei fraich am yr eneth*).

## LLEN.

## ACT II.

*Amser : tair blynedd wedi Act I.*

*Y llwyfan wedi ei pharatoi yr un modd ag yn Act I.*

*Pan godir y llen gwelir Gwen Thomas yn symud y bwrdd a gosod y cadeiriau yn eu lle. Mae hi'n edrych yn llwyd ei gwedd, yn fwy felly nag oedd yn yr Act flaenorol. Jane ei merch yn dyfod i mewn o'r siambr.*

**Jane.** Mewn difri, mam, be ydi'ch meddwl chi, a'r doctor wedi rhoi siars arnoch chi i beidio gneud dim ond ista'n llonydd.

**Gwen.** Ag wedi deud wrth dy dad am styrio o gwmpas a pheidio bod yn llonydd ! Pa iws gwrando ar ddoctor sy'n rhoi cynghorion mor groes i gilydd ?

**Jane.** Nid 'run salwch sydd ar 'nhad a chitha.

**Gwen.** Ia, 'run clefyd yn union, poeni fod y tyddyn yma wedi'i werthu. Edrach ar i ffisig o hefyd—potelad o rwbath tew fel triog i Griffith, a llond potal o rwbath fel glasdwr i minna, ond fod o'n waeth i flas.

**Jane.** Nid yr un cyfansoddiad sy gynnoch chi a nhad.

**Gwen.** Yr ydan ni'r un fath yn union a'n gilidd. Wedi'n geni 'run dwrnod, wedi priodi 'run dwrnod, mynd i gysgu'r un amsar a byta 'r un peth yn union a'n

gilidd, ac mi fasa potelad o'r un ffisig yn gneud yn iawn rhyngom ni, ond basa *bill* y doctor yn dipyn llai.

(*Jane yn symud torth oddiar y bwrdd pan ddaw Griffith Thomas i'r ystafell*).

**Jane.** Steddwch yn y gadar freichia, nhad.

**Gwen.** Lle buoch chi, Griffith?

**Griffith.** Yn sefyll wrth y llidiart yn gwrando ar y porthmon moch yn pregethu tipyn ar y byd yn gyffredinol.

**Gwen.** Yn sefyll Griffith! ar ol i'r doctor siarsio arnoch chi styrio digon a symud o gwmpas.

**Griffith.** Mi gawn styrio digon, pen ddaw dwrnod madal.

**Jane.** Pwy sy wedi prynnu'r lle 'ma, nhad?

**Griffith.** Fedra i yn y myw gael allan; fedar y porthmon moch ddim deyd, ag mae o'n gwbod hanas pawb.

**Gwen.** Pe cawn i afal ar y twrna hwnnw oedd yn codi ar y lle 'ma yn yr ocsiwn mi gowsa'i groesholi mor galad gin i, mi fasa'n deud er mwyn câl heddwch.

**Griffith.** Na fasa byth, os oedd o'n ca'l tâl am gadw'i dafod yn llonydd.

**Gwen.** 'Roeddwn i yn arfar meddwl mae am ysgwyd i tafoda y bydda twrneiod yn cael tâl!

**Griffith.** Mi 'nae dy fam dwrna iawn, Jane.

**Gwen.** Na 'nae, wir, os na chae i chynghorion hi fwy o sylw nag mae nhw'n gael gin i gŵr.

**Jane.** Dyma'r plisman yn dŵad. Ella i fod o'n gwbod pwy 'di'r landlord newydd.

**Griffith.** Dowch i miawn, Brown.

**Gwen.** *Mistar* Brown, Griffith ; cymrwch ofol rhag i ddigio fo.

**Jane.** Dyma fo Mr. Brown.

(*Brown yn dyfod i'r ystafell. Gwelir tair* stripe *ar ei fraich yn arwyddo ei fod yn* sergeant. *Y mae yn ysgwyd llaw â Gwen a Griffith, yna yn troi at Jane*).

**Brown.** *Sergeant* Brown os gwelwch chi'n dda, Miss Thomas. Mi gefis *promotion* fel y gwelwch (*yn galw sylw at lawes ei gôt*).

**Gwen.** 'Roeddach chi'n haeddu hynny os odd rhiwin.

**Brown.** Oeddwn, ag mi welodd y *chief* hynny o'r diwadd, ond digon *slow* ydi *promotion* yn y *county force*.

**Griffith.** 'Roeddach chi'n teilyngu codiad yn ych cyflog, yn enwedig am ddal lladron.

**Brown.** Mi fuom yn llwyddiannus bob tro, ond y noson honno.

**Gwen.** A'r gwalch yn dwyn *bike* Jane hefyd.

**Brown.** Mi gostiodd hynny'n ddrud i'r *burglar* hwnnw, pen ath o a'r *bike* i waelod y môr, ag ynta 'n ddieuog o dorri i miawn i'r plas.

**Griffith.** Oes sicrwydd i fod o'n ddieuog, Sarjant?

**Brown.** Oes! mi ddaliwyd y ddau arall, a pheth o eiddo'r Cyrnol yn i meddiant. Mi ddaryn gyfadda'i bai—" *pleaded guilty* " ydi gair y Llys—'Roeddan nhw'n deud hefyd nad odd neb hefo nhw, ag na wydda nhw ddim am y tramp ifanc hwnnw y buon ni ar i ôl o.

**Gwen.** 'Roeddwn i'n meddwl ych bod chi wedi weld o'n dwad o'r Plas!

**Brown.** Nâddo, ond 'rodd *case* cry yn i erbyn o. Fasa'i fam o byth yn credu'i fod o'n lân, na'i dad chwaith o ran hynny.

**Gwen.** Wn i ddim am i dad o, ond chreda i byth basa'i fam yn i wrthod o, pwy bynnag oedd hi.

**Griffith.** Sut 'rydach chi'n licio byw yn y dre acw, Sarjant?

**Brown.** 'Rydw i yn cael mwy o waith, ond mi geir gwell manteision i *officer* ddangos i dalant ag ynnill *promotion*.

**Gwen.** 'Dos dim llawn cymint o waith blacio sgidia yn y dre ag sy'n y wlad.

**Brown.** Dyma fi jest wedi anghofio fod gin i barsal bach o'r pôst i Miss Thomas.

(*Yn estyn* parcel *bychan i Jane. Mae'r eneth yn agor y* parcel *ac yn tynnu* brooch *fechan ar lun* bicycle *allan ohono*).

**Jane.** 'Drychwch, 'nhad, brôitsh aur ar lun *bike*. 'Tydi hi'n ddel?

**Gwen.** Welis i 'run erioed cin neisiad.

**Jane.** Welodd neb arall chwaith. Drychwch arni hi. Tydi hi'n ddel?

(*Yn dal y frooch i fyny a phawb yn ei hedmygu*).

**Griffith.** Mi gostiodd hon dipyn o bres, Sarjant.

**Brown.** Do, fwy na'r *bike* gollwyd, mae'n debig, Griffith Thomas.

**Jane.** Pwy sy wedi'i gyrru hi tybad?

**Griffith.** Rhiw lanc ifanc wedi clywad fod Jane wedi colli *bike*.

**Gwen.** Peidiwch a gwirioni'r lodas, Griffith.

**Brown.** Odd dim nôt hefo hi, Miss Thomas?

**Jane.** Dim gair ond wedi'i lapio mewn papur gwyn tena fel sidan.

**Brown.** Be odd y *postmark*?

(*Jane yn estyn y box oddiar y bwrdd. Brown yn edrych yn fanwl*).

**Jane.** Wela i ddim marc.

**Brown.** Dyma fo " London 4 *p.m.*," wedi'i phostio yn Llundan, 4 o'r gloch.

**Jane.** 'Tydw i'n nabod neb yno.

**Griffith.** Mae rhai o fechgin yr ardal yma yn Llundan yn dysgu mynd yn siopwrs.

**Gwen.** Cadw hi, Jane, rhag ofn i ti'i cholli hi fel dy *fike* arall.

(*Jane yn symud yn araf tua'r siambr, gan edrych ar y* frooch *wrth fynd o'r ystafell*).

**Griffith.** 'Tydi'r hogan druan yn cael dim amsar i weld i phresant gynnoch chi.

**Gwen.** Peidiwch a gwirioni Jane hefo petha neis, a sôn am gariada a phetha gwirion felly.

**Brown.** *Dear* annwyl. Dyma fi wedi anghofio'r llythyr roes gŵr y post i ddwad i chi, Griffith Thomas.

(*Yn estyn y llythyr. Griffith Thomas yn edrych ar yr* envelope *gan ei droi a'i drosi*).

**Gwen.** Drychwch y rest o'ch pocedi, Sarjant, rhag ofn fod yna lythyr i minna eto.

**Griffith.** Be ydi'r enwa sy ar y llythyr?

(*Brown yn edrych ar y llythyr*).

**Brown.** Oddiwrth " Johnson & Price, Solicitors," —llythyr twrna, Griffith Thomas.

**Gwen.** Bobol annwyl, os rhiwin am gyfraith arnon ni?

**Griffith.** Chydig sy yma iddo fo gâl. Darllenwch o, Sarjant.

**Brown.** Os matar cyfraith ydi'r llythyr, gwell gin i beidio.

**Gwen.** 'Rydach chi'n gneud yn gall iawn, Sarjant. Mi ddarllennith Jane y llythyr. Mae hi'n dysgu Sasnag yn reit ddel tua'r ysgol yna, ag yn wir, 'tydw i ddim yn licio cadw'r sarjant.

**Brown.** 'Rydw i 'n cychwyn y munud yma.

**Gwen.** Mi gewch gwpanad o dê pen ddaw amsar tê, ond os rhaid i chi gâl mynd—(*Jane yn dyfod yn ol o'r siambr*).

**Brown.** Ia, mynd ydi'r gora.

**Jane.** Diolch i chi am gario'r presant, Serjant Brown.

**Gwen.** Ac am droi i miawn i edrach am danon ni. Cofiwch rhaid i chi aros i gael tê y tro nesa.

**Brown.** Wel, *good bye*, bawb o honoch chi.

**Griffith.** Brysiwch yma eto.

**Brown.** *Thank you, good-day.*

(*Brown yn mynd allan, Jane yn cau'r drws ar ei ol*).

**Gwen.** Beth odd ych meddwl chi, Griffith, yn gofyn iddo fo ddarllan y llythyr? Wbod yn y byd be sy tu miawn i'r cas papur yna.

**Griffith.** Rhaid i riwin i ddarllan o. Fedra i na chitha ddim.

**Gwen.** Darllan di o Jane. Steddwch, Griffith, yn gysurus i glywad y gwaetha. Chafodd neb fawr o gysur oddwrthun nhw, y twrneiod.

(*Jane yn cymeryd y llythyr, yn ei agor, ac yn edrych drosto*).

**Griffith.** Cymar bwyll, 'ngenath i, rhag ofn drysu.

**Gwen.** Ddrysith hi ddim.

(*Jane yn darllen y llythyr yn arafaidd. Yn sillafu pob gair mawr ac yn rhoddi cam bwyslais ar y rhan fwyaf o'r geiriau, megis* hospitaleiti, *gan roddi pwyslais ar y llythyren* i *ddiweddaf yn y gair, a'i seinio i odli â* mighty).

**Jane.** "Dear Sir, We are instructed by our client, the purchaser of your farm, to inform you that he will call to-morrow afternoon to inspect the property. Will you please show him the house, out-buildings, and the land. If it becomes dark before completing the

inspection he hopes you will permit him to *trespass* on your hospitality for the night. Yours truly, Johnson & Price (Solicitors)."

**Griffith.** Ydi o yn deyd rhwbath am dresmas ?

**Gwen** Ac am rhyw hospitol hefyd ?

**Jane.** Deyd fod y gŵr bynheddig am ddwad yma i weld y lle, ma nhw.

**Griffith.** 'Rydw i yn ddigon siŵr y clywis i rwbath am dresmas. Darllan y rhan honno eto.

**Jane** (*yn darllen*). "To trespass on your hospita-lity." Wn i ddim be ydi o.

**Gwen.** Wfft i dy Sasnag di.

**Griffith.** Mi fedar siarad Sasnag yn well o lawar na'i mham. 'Rydw i yn siŵr o hynny.

**Gwen.** Sôn am neud hospitol ma nhw.

**Jane.** Nid hospital, ond hospita-*lity* !

**Gwen.** Ella ma gneud dwy ma nhw'n feddwl. Bildio hospitols ma nhw ymbob man rŵan.

**Jane.** 'Tydi'r geiria ddim run fath, mam.

**Gwen.** Ydyn, 'run fath yn union, ond fod un dipin yn hwy.

**Griffith.** Edrach weli di'r plisman. Mae o wedi dysgu pob math o Sasnag, da a drwg, tua'r llysoedd yna.

(*Jane yn mynd allan ar frys ac yn gwaeddi enw Sergeant Brown*).

**Gwen.** '*Tydi* tipin o Sasnag yn help i fynd trwy'r byd yma!

**Griffith.** Gobeithio nad ydi Brown ddim ymhell, ma'r gair " dresmas " na wedi 'nychryn i.

**Gwen.** Iaith anodd i dallt ydi'r Sasnag. Hannar dwsin o eira run fath a'i gilydd, ond yn reit wahanol i gilydd, " *Dressmaking* " ydi gneud dillad i ferch, " *Dress massso* " ydi torri dros y cloddia.

**Griffith.** Ia, a topdressio ydi cario tail i'r caea.

(*Jane yn dyfod yn ol a Sergeant Brown yn ei dilyn*).

**Jane.** Mae'r Serjant yn deyd y cyfeithith o'r llythyr.

**Brown.** Gnaf gyda phlesar, Griffith Thomas, g'dewch i mi'i weld o.

(*Brown yn edrych y llythyr ac yn syllu a chlirio ei wddf. Yna yn ei ddarllen yn gywir yn Saesneg*).

**Jane.** 'Roeddwn i'n deud ma'r landlord newydd sy—

**Gwen.** Taw Jane, rhag ofn drysu'r dyn ; job anodd ofnadwy ydi hi.

**Brown.** Y landlord sy'n dwad i inspectio'r tŷ, a'r bildings, a'r tir ; ac os eith hi'n dywyll cyn gorffan, mae

o am dresmasu ar ych caredigrwydd chi trwy ofyn cael gwely yma dros y nos.

**Gwen.** Fedar o gysgu ar wely pesgwyn, tybad?

**Griffith.** Tŷ gwael iawn sy gynnon ni, Sarjant.

**Gwen.** Ella cawn ni dŷ newydd gynno fo.

**Brown.** Mi gewch gyfleusdra da i ofyn; ond peidiwch a'i ddychryn o drwy ofyn gormod.

**Gwen.** Mi hwylia i *visit* iddo fo, yr ora gafodd o rioed, Sarjant. Jane, cofia fod isio i ti fynd i'r pentra bora fory i brynnu bara peilliad.

**Brown.** Mi fydd hynny yn *too late.* Mi fydd y landlord yma'n bur fuan; prynhawn heiddiw sy'n y llythyr.

**Griffith.** Fory ddeuodd Jane.

**Jane.** *To-morrow* ydi o hefyd.

**Brown.** Ond cofiwch ma'r dwrnod cynt y detiwyd y llythyr.

**Gwen.** Wfft i dy Sasnag di, Jane, Be sy i neud? rydw i heb gimint a wicsan yn y ty.

**Griffith.** Fedrwch chi ddim gneud slapan iddo fo?

**Gwen.** Ewch odd ar y ffordd, Griffith, a pheidiwch a bysnesu hefo gwaith merchaid. Jane, rho gadar i'r Sarjant wrth y tân, a thòr dafall o fara ga'l i ti dostio fo.

**Brown.** Mi a i odd ar y ffordd, Mrs. Thomas.

**Gwen.** Peidiwch a'n gadal ni, da chi. Be os ma Sais ydi'r gwr bynheddig ? 'Does fawr o goel ar Sasnag, Jane.

**Griffith.** Chwara teg i Jane. Pwy fyth fasa'n meddwl mae hospital ydi gwely yn Saesnag.

**Gwen.** Bendith arnoch chi, Griffith, ewch i'r briws i molchi a rhoi colar lân.

**Griffith.** Yn wir, gwell peidio gneud yn hinain yn rhy *grand* rhag ofn iddo fo godi ar y rhent.

(*Griffith yn mynd allan, a Jane yn dyfod i mewn a thorth beilliad yn ei llaw*).

**Jane.** Welwch, beth oedd yn y cwpwrdd, mam !

**Gwen.** Rhai ohonoch chi cuddiodd hi er mwyn cael sgram.

**Brown.** Dowch a hi yma, Miss Thomas. Mi tostia i hi.

**Gwen.** Ystyn fforc i'r Sarjant, gin fod o mor ffeind.

(*Brown yn ei rhoi ar flaen y fforc ac yn ei dal o flaen y tân. Yna yn ei newid yn ddirgel, a'i gefn at y gynulleidfa, am un arall wedi llosgi un ochr, ac wedi ei chuddio ymlaen llaw yn y fender. Deil yr ochr losgedig at y tân*).

**Jane.** Beth ga i 'neud ?

**Gwen.** Rho frat glân, a gna dy hun yn dwt.

**Jane.** Ga i wisgo 'mrôitsh newydd?

**Gwen.** Cei, ond paid a bod yn hir.

(*Jane yn mynd i'r siambr, Gwen yn gosod llestri tê ar y bwrdd*).

**Brown.** Llestri hardd iawn, Mrs. Thomas.

**Gwen.** Da chi, Sarjant, edrychwch ar ol y dorth beilliad.

(*Griffith yn dyfod i'r ystafell a thowel yn ei law, ac yn sychu ei wyneb ; yna yn gorffen rhoi ei goler yn sownd*).

**Griffith.** Mae o wedi dwad, Gwen, miawn motor.

**Gwen.** A phopeth mor flêr.

(*Gwen yn brwsio gwallt Griffith ar ol gorffen sychu ei wyneb, yna yn cau ei goler*).

**Griffith.** Peidiwch a 'nghrogi i Gwen.

**Gwen.** Be di'r ogla llosgi yma?

**Brown.** Ma arna i ofn, fod y *muffin* yn *overdone*.

(*Brown yn dal y dorth beilliad i olwg Mrs. Thomas*).

**Gwen.** Wedi llosgi'r bara peilliad yn golsyn. Wfft i'ch bacha chi, Sarjant.

**Brown.** *Order Please*. Dyma'r gŵr bynheddig.

(*Gwen yn ceisio crafu a glanhau y dorth beilliad. Jane yn dyfod o'r siambr, a John yn dyfod i'r tŷ, â barf osod fawr yn cuddio'i wyneb fel na allant ei adnabod. Jane a Gwen yn rhoi* curtsey *iddo, Griffith Thomas yn gafael mewn cudyn o'i wallt, gan roi bow i John. Sergeant Brown yn sefyll yn syth a rhoi* salute *i'r* landlord *newydd. John yn edrych ar Brown*).

**John.** Chi di'r tenant?

**Brown.** *No sir, Sergeant Brown, County Constabulary.*

**Griffith.** Ofni mae Sais oeddach chi syr, ag aros i gyfieithu rhyngon ni mae'r sarjant.

**John.** Fi medru Cymraeg, tipyn bach; os cynoch chi *case* yn erbyn y tenant yma, *sergeant*?

**Brown.** *No sir, I have no charge against him.*

**John.** Buo cynoch chi *case* yn erbyn rai o'i teulu o rioid, *Sergeant*?

**Brown.** Naddo 'rioed. *Never, Sir.*

**John.** *Very Good.* Diolch yn mawr, *Sergeant*, am deud hynny. Ma gen fi mater *private* hefo'r tenant. Caf fi gweld chi eto, *Sergeant*, os newch chi 'nabod i.

**Brown.** Fydda i byth yn anghofio dyn os gwela i o unwaith. *I make no mistake like that, sir.*

**John.** *Very good! Good day, Sergeant!*

**Brown.** *Good day, Sir.*

(*Brown a John yn* salutio *ei gilydd. Yna mae Brown yn sythu ac yn* marchio *allan, John yn troi at ei dad a'i fam*).

**Griffith.** Fyddwch chi mor ddifalch ag ista, syr ?

**Gwen.** Lle digon blêr sy gynnon ni, syr. Dwrnod golchi.

**John.** Peidiwch apologisio, Mrs.——

**Gwen.** Gwen Tomos ydi f'enw i, syr.

**John.** A'r gŵr ?

**Gwen.** Griffith Tomos ,gyda'ch cennad, syr.

**John.** Oes yma plant ?

**Gwen.** Dau, bachgan a lodas. Dyma un o honyn nhw.

(*Jane yn dyfod ymlaen at ochr ei mam*).

**John.** Beth ydi henw chi ?

**Jane.** Jane, syr.

**John.** *Very Good*, chi eista lawr, *please*.

**Jane.** *Thank you*, syr.

**John.** Fi eisio gweld mab chi eto.

(*Gwen a Griffith Thomas yn edrych ar ei gilydd*).

**Griffith.** Tydi'r mab ddim yma, syr.

**John.** Wedi mynd i'r marchnad, ne'r ffair ella.

**Gwen.** Oddicartre mae o y dyddia yma.

**John.** Lle mae o felly?

**Gwen.** Wedi mynd ar lêd, syr.

**John.** Llongwr?

**Gwen.** Mewn llong yr aeth o, syr.

**John.** Hefo tramp?

**Griffith.** Nâgi, stemar reit *respectable*, syr.

**John.** Pryd clywsoch chi oddwrth mab?

**Jane.** Mi ges i *picture postcard* oddwrth 'y mrawd, syr.

**John.** O ble?

**Jane.** Klondyke oedd yr enw, syr.

**John.** Lle oer iawn, cartra rhew a'r eira; llawar o pobol yn rhewi yn farw yno.

**Gwen.** John druan!

**John.** Peidiwch torri calon, Mrs. Thomas. Fe ddaw mab adra, wedi gneud i ffortiwn.

**Griffith.** Golwg ddigon annhebig oedd arno fo pan welson ni o ddweutha.

**John.** Sut ddyn oedd o. Tebig i fi?

**Gwen.** Gwahanol iawn i chi.

**John.** Ydw i yn fwy tebig i John rŵan?

(*John yn taflu ei farf osod i ffwrdd. Y tri yn ei adnabod ac yn cydlawenhau a'i gilydd*).

**Gwen.** Fy machgan annwyl i, ar i lun i hun o'r diwadd.

**John.** Ydach chi wedi madda i mi, nhad?

**Griffith.** Ydw, John bach, ers blynyddoedd.

**Jane.** Ddigis i rioed, John.

**John.** Ych *bike* chi safiodd fi'r noson honno, Jane.

**Gwen.** Paid a sôn am y noson honno byth eto.

**John.** Cyfraith 'y ngwlad am 'y nghosbi, a finna'n lân.

**Griffith.** Mi gyffesodd y ddau arall ma nhw'n inig odd yn euog o dorri i'r Plas.

**Gwen.** Sut yr eis ti o'i gafal nhw, John?

**John.** Mi groesis i'r Werddon ,ag wedyn i'r Mericia. Ar ol cynilo chydig mi gyrhaeddis San Francisco. Wedi hynny mi eis efo parti oedd yn anturio i wlad y rhew a'r aur, Klondike. Mi lwyddwyd fy ymdrechion yn well na'r disgwyliad ac yn llawar gwell na fy haeddiant i. Mi 'nillis filoedd ag mi gyrchis fy ngolud i ddiogelwch un o brif fancia San Francisco.

**Griffith.** Sut y prynist ti dy gartra?

**John.** Clywad gin un o f' hen gyfeillion o'r ardal yma yn Frisco—Ned Parry—Fron Ganol, fod y lle ar werth.

**Griffith.** Sut ma Edward wedi troi allan?

**John.** Un o'r bechgin gora ar lanna'r Pacific. Mae o mewn safla ragorol. Mi roes siars arna i i gofio fo atoch chi, mam, at fy chwaer bach fel yr oedd o'n galw Jane, ac yn benna o bawb atoch chi, 'nhad.

**Griffith.** Mae o wedi madda i mi felly am weinyddu disgyblath arno fo am yfad?

**John.** Mi ath i'ch cyfarfod, medda fo, a chalon o haearn yn i fynwas. Ond pen aethoch i sôn yn ych cynghorion mwyn a chredig, am afradlonrwydd mab yn torri calon mam mi doddodd y galon haearn, ag mi ath oddicartra yn ddyn newydd. Mi gofith ych geiriau hyd i fedd, medda fo.

**Griffith.** Diolch mod i wedi gneud rhyw chydig o ddaioni yn yr hen fyd yma.

**John.** Ag i mi orffan fy stori, mi gyfarwyddodd y bankers, Johnson a Price y twrneiod i brynnu'r tyddyn yma. Mi glywis iddyn nhw lwyddo pen gyrhaeddis i Lundan, lle prynis i frôitsh fechan i Jane, ag mi postis hi, hefo llythyr oddwrth y twrna.

**Jane.** Mae'r frôitsh a'r llythyr yn sâff ,John.

**John.** Gan na wyddwn i farn y *Police* am dana i, mi

gyrhaeddis yma yn y *disguise* welsoch chi am dana i. Maddeuwch i mi am chwara'r fath dric, mi dala' i'n dda i chi. 'Rydw i yn berchen da lawer (*yn agor y gweithredoedd*). Dyma'r gweithroedd sy'n ych gneud chi'n *freeholder* am ych oes.

**Griffith.** Ni bia'r lle 'ma am byth, Gwen.

**Gwen.** Waeth am y cyfoeth. Dy gael di adra odd y peth mawr, John bach.

**Jane.** Ag yn iach trwy ych holl helyntion.

**Griffith.** John bach. y peth mwya o'r cwbwl i dy rieni, ydi cael i hunig fab adra ar yr hen aelwyd, yn fachgan sobor, yn fachgan gonast, ac yn fachgan da.

(*Maent yn sefyll wrth ochr ei gilydd, yna daw y llen i lawr*).

# "Yr Hen Iaith"

GAN

H, O, HUGHES.

# *YR HEN IAITH.*

---

*Drama yn cynnwys y cymeriadau canlynol :—*

| | | |
|---|---|---|
| Robert Williams | - | Platelayer oedrannus. |
| Grace Williams | - | Ei ferch. |
| Beti Roberts | - | Gwraig Wil Ifans, Platelayer arall. |
| William | - - | Pointsman yng ngwasanaeth y Cwmpeini. |
| Twmi | - - - | Bachgen 15 oed yng ngwasanaeth W. H. Smith & Son, Llyfrwerthwyr. |

---

(Amser - Gaeaf y Flwyddyn 1894).

# Yr Hen Iaith

*(Paratoir y llwyfan i arddangos ystafell mewn tŷ platelayer ar y reilffordd yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys y dodrefn arferol. Tua chanol y mur pellaf gwelir lle tân; ar yr ochr chwith i'r tân (pan sefir ar y llwyfan yn wynebu yr eisteddleoedd) mae cadair freichiau, ac o'r tu ol iddi gwelir drws y tŷ. Ar yr ochr ddehau i'r tân saif bwrdd gyda dwy gadair gerllaw iddo. Ym mhellach ar y ddê mae drws yn arwain i'r parlwr neu'r siambr. Wrth ben y tân y mae shilff ac arni amryw lyfrau, yn eu plith Beibl Cymraeg ynghyd ag Esboniadau a Llyfr Hymnau. Edrych yr ystafell yn drefnus a glân. Mae'r mân bethau canlynol yn angenrheidiol,—tepot a* kettle *wrth y tân, cannwyll oleu mewn canhwyllbren ar y bwrdd, ynghyd a thorth, ymenyn, a dwy neu dair o gwpanau a soseri tê, ac ynghyd hefyd a phiser bwyd gweithiwr. Pan gyfyd y llen gwelir Robert Williams, gweithiwr oedrannus, yn eistedd ar y gadair freichiau, tra mae Grace, ei ferch, yn brysur gyda gwaith y tŷ.)*

---

**Grace.** Peidiwch ag edrach mor ddigalon, nhad bach; os ydi'r Cwmpeini wedi'ch troi chi o'ch lle, mi fydd llawar o'ch cymdogion yn falch o roi gwaith i chi.

**Robert Williams.** Mae pawb yn garedig iawn. Hwda, ngenath i, dyma nghyflog i—yr ola' nillis i ar

yr hên lein. (*Yn estyn ei gyflog iddi.*) Rwyt ti wedi edrach ar ol y tŷ yma'n fedrus er pen gollis i dy fam. Mi wnei wraig gynnil i William y Signalman.

**Grace.** Rhaid i chi fyw hefo ni, pan symudir William i Loegar.

**R. W.** Gwell gen i fyw a marw yng Nghymru.

**Grace.** Mae nhw yn garedig dros ben lle'r ydan ni'n mynd.

**R. W.** Ydyn, mae nhw'n bobol garedig, ac nid y bobol sy gyfrifol am amball i giaffar go ffroenuchal anfonwyd i lawr yma. Ond gormod o gyfnewid i mi fydda clywad dim ond Sasnag hyd ddiwedd f'oes, ac anioddefol fydda meddwl cael 'y nghladdu mewn semitri ac adgyfodi ryw ddydd i glywad dim ond yr iaith fain o nghwmpas. Na, Cymru i mi hyd y diwadd, ac ar ol hynny hefyd, Grace bach.

(*Mae Grace yn symud at ddrws y ty, gan ei agor ac edrych allan*).

**Grace.** Mae hi yn noson niwliog iawn.

**R. W.** Niwliog ydi hi arna inna hefyd, 'ngenath i.

**Grace.** Wn i ddim sut mae neb yn gweld y ffordd heno.

**R. W.** Coda'r bleinds. Efallai bydd yn help i ryw deithiwr.

**Grace.** Mi glywa i swn troed rhywun.

**R. W.** Agor y drws, gâl iddo wel'd tipyn o'r ffordd.

**Grace.** Dos dim isio gneyd hynny; William ydi o, ac mae o yn 'nabod pob modfadd o'r ffordd. (*Grace yn agor y drws*).

**R. W.** Hawdd y gall o, ar ol i cherddad hi mor amal.

**Grace.** Doeddwn i ddim yn ych disgwyl heno, William.

**William.** Eisio gweld ych tad sy arna i. Ydo o i mewn?

**R. W.** Ydw machgan i, tyrd i miawn.

(*William, dyn ieuanc mewn dillad signalman yn dyfod i mewn gan gau y drws. Mae golwg oer a gwlyb arno*).

**Grace.** Be sy'n bod, William?

**William.** Wedi drysu yn lân mae hi tua'r stesion yna. Dos yna neb i roi'r *fog signals* ar y lein. Yr hen gang wedi madal heiddiw a'r rhai diarth ddim yn dwad at i gwaith tan bora foru.

**Grace.** Gobeithio na 'dach chi ddim yn disgwyl i 'nhad fynd at y gwaith ar noson oer fel hyn?

**William.** Fedar neb weld bai arno fo am beidio. 'Rydw i wedi gofyn i Wil Ifans, ond mi wrthododd.

**R. W.** Beth ddeudodd Wil Ifans?

**William.** Deud y cai pob trên sy gynnun nhw fynd heibio Caergybi i'r môr cyn rhoi o'i droed byth ar i hên lein nhw.

**R. W.** Ydi o wedi anghofio'r dreifars a'r teithwyr? Hwylia damad o fwyd Grace, mi a i at y signals.

**Grace.** Chewch chi ddim mynd allan. Be di'ch meddwl chi nhad?

**R. W.** Meddwl am fy nyledswydd at fy nghyddyn, 'ngenath i.

**William.** 'Rodd yn gâs iawn gin i ddwad yma, Robat Williams.

**R. W.** Mi rois i *fog-signals* i lawr pen oedd hi'n fwy niwliog nag y mae hi heno lawar gwaith, a redodd dim trên i signals yrioed hefo mi. Diolch i ti am ofyn i mi, William.

**William.** Mi fydd y Stesion Mastar yn ddiolchgar i chi o'i galon. Mae o fel dyn wedi drysu gin ofn i ryw ddamwain ddigwydd. Dyma rai o'r *fog-signals* i chi. (*Yn eu rhoddi i Robert Williams*).

**R. W.** Dwad wrtho fo na ddigwyddodd 'run ddamwain rioed ar y *length* yma.

(*William yn paratoi i fyned allan*).

**Grace.** Ydach chi am fynd miawn munud, William?

**William.** Mi wyddoch y basa'n dda gin i aros. Ond dos neb yn y *signal-box* ond y Stesion Mastar, a 'chydig iawn mae o yn ddallt ar y lifars.

**R. W.** Dos, William, rhag ofn damwain.

**William.** Rhaid mynd, 'do's mo'r help, Grace.

**Grace.** 'Rydw i yn gweld hyny. Rhowch hwn am ych gwddw i fynd trwy y niwl, William.

(*Yn rhoddi muffler am wddf William. Grace a William yn nesu at y drws*).

**William.** Noswaith dda i chi Robat Williams.

**R. W.** Nôs dawch, William. Dwad wrth y Stesion Mastar am fod yn dawal i feddwl.

**William.** Fydd dim eisio pan glywith o ych bod chi yn ymgymeryd â'r gwaith, Robat Williams.

(*Grace yn agor y drws, a William yn myned allan*).

**Grace.** Lapiwch ddigon am ych gwddw, William.

**William.** Nôs dawch, Grace.

(*Tra maent wrth y drws, estyn Robert Williams y Beibl a darllena ychydig o adnodau. Yna mae Grace yn paratoi ei fwyd iddo. Ar ol ychydig mae Robert Williams yn cau'r llyfr ac yn ei ddodi ar y shilff*).

**R. W.** Mae dy fam yn y meddwl i lawar heiddiw, Grace. Be ma hi yn i neud yn y nefoedd 'rwan, tybad?

**Grace.** Os oes llyfra yno, 'tydi mam bach ddim yn mhell oddwrthyn nhw.

**R. W.** Ma hi wedi gweld rhyfeddoda lawar. Gweld yr hen batriarchiaid a'r proffwydi. Edrach ar yr apostolion. Siarad â hên dduwiolion Cymru. Cael ymgomio â'r hên Ficar Prichard a Williams Pantycelyn. Mi fasa yn dda gynni hi droi dalenna i llyfra nhw.

**Grace.** Fel y bydda hi'n gneud cyn marw. Adawodd hi ddim llwch ar yr un o honyn' nhw 'rioed.

**R. W.** Meddwl am dani yn câl gwrando ar John Elias yn llefaru eto. Clywad Christmas Evans, Williams o'r Wern, a'r hen dduwiolion i gyd. Fedra i ddim peidio hiraethu am gâl bod yno hefo hi.

**Grace.** Gobeithio y cewch chi fyw hefo ni lawar blwyddyn eto.

**R. W.** 'Dos dim isio sefyll arholiad yn Sasnag wrth fyned i mewn yno.

**Grace.** Triwch beidio meddwl am y Cwmpeini a'u bryntni, da chi, nhad bach.

**R. W.** Mi geisia 'neud hynny, ond ma hi'n anodd. Ydi'r bwyd yn barod ?

**Grace.** Ydi, dyma fo. (*Yn estyn ei biser iddo, ynghyd a pharsel.*)

**R. W.** Lle mae fy nghôt ora i ?

**Grace.** Ydach chi am wisgo 'ch côt ora ar noson mor fudur?

**R. W.** Y noson ola i mi fod ar yr hên lein.

(*Grace yn estyn ei gôt a'i rhoddi am dano, ac yna yn agor y drws iddo*).

**Grace.** Ma hi'n dwllach nag erioed.

**R. W.** Mi gyfyd y niwl cyn hir. Mi gwela hi yn gleuo i fyny. Noswaith dda, ngenath i. Paid ag aros ar dy draed i 'nisgwyl i.

**Grace.** Ma hi yn gynar iawn eto. Cymrwch ofal nhâd bâch yn y twllwch a'r niwl.

**R. W.** Does dim peryg, ngenath i.

Daw, fe ddaw y wawr wen oleu,
Nes bo'r cwmwl du yn ffoi;
Tarth a niwl yn cyd-ddiflannu,
Ag oedd wedi cyd-grynhoi:
Dyma'r oriau,
'Rwy'n eu gweled draw trwy ffydd.

(*Ceisier rheoli y llais pan yn adrodd neu yn canu y pennill i gyfleu y syniad fod yr adroddwr yn pellhau yn raddol oddiwrth y gwrandawyr. Ar ol sefyll am funud wrth y drws aiff Grace yn ol at ei gwaith gan siarad*).

**Grace.** Rhaid fod 'y nhâd yn ddyn duwiol, yn medru madda i bobol sy wedi dangos cimint o fryntni

ato fo ; fedra i ddim gneud hynny. Fasa neb yn gweld bai am ofyn i bob dyn ifanc, cyn rhoi gwaith iddo, brofi i fod o yn alluog i ddarllan a deall Sasnag ; ond 'roedd gorfodi hên weithwyr gonast, oedd wedi gwasanaethu'r Cwmpeini am ddega o flynyddoedd, heb unrhyw gŵyn yn i herbyn, i gâl i holi yn Sasnag a'u troi o'u lle os na fodlonan nhw'r Arholwr, yn orthrwm fydd byth yn warth i'r rhai sydd mewn awdurdod. Dos dim rhyfadd i'n gwlad o'n Seneddwyr deimlo cimint dros y bobol sy wedi câl cam.

(*Clywir curo wrth y drws*).

Dowch i mewn.

(*Beti Roberts gwraig Will Evans yn dyfod i mewn yn amlwg mewn tymer ddrwg.*

**Beti.** Ydi dy dad i miawn, Grace ?

**Grace.** Nag ydi ; dowch at y tân.

**Beti.** Lle mae o ? Ma arna i isio'i weld o.

**Grace.** Wedi mynd at y *fog-signals* ma nhâd.

**Beti.** Rodd Wil yn deud y bydda'r hên ŵr yn siŵr o neud ffŵl o hono'i hun.

**Grace.** Gneud ffŵl o hono'i hun. Be di'ch meddwl chi ?

**Beti.** Pa ddylêd odd arno fo i'r Cwmpeini ? Pa'm na fasa nhw'n gyrru'r *blacklegs* allan i rewi tipin ?

**Grace.** Fedra 'nhâd ddim aros yn y tŷ a meddwl fod y dreifars yn methu gweld y *signals* trw'r niwl, a'i bod nhw a'r teithiwrs yn câl i 'sgubo i farwolaeth mewn canlyniad. Deudwch chi be fynnwch chi, Beti Robaits, fuo nhâd 'rioed mor uchal yn 'y meddwl i ag ydi o heno.

**Beti.** Rhaid i fod o yn llawar mwy duwiol na Wil acw. Faddith Wil byth i'r hen gnafon bryntion.

**Grace.** Wyddoch chi am beth 'rodd nhad yn siarad heno?

**Beti.** Sut gwn i, a minna adra hefo Wil.

**Grace.** Sôn am mam yn y Nefoedd, a hiraethu am fod efo hi.

**Beti.** Os os rhywun o'r ardal yma wedi mynd yno, dy fam a dy fodryb Mari ydyn nhw.

**Grace.** Ia, un agos iawn i lle oedd modryb hefyd.

**Beti.** Duwiol dros ben. Ag yn un ffeind. Pan oedd yr infflensi hwnnw ar Wil acw, fydda dim dwrnod yn mynd heibio heb iddi ddwad a broth iddo fo. Fydd Wil yn deud yn amal iawn os os rhiwun yn sâl yn y Nefoedd y bydd o yn lwcus iawn os daw dy fodryb hyd iddo fo.

**Grace.** Dôs neb yn sâl yn y Nefoedd.

**Beti.** Sâl iawn oedd y rhan fwya o honyn nhw jest cyn mynd yno.

**Grace.** Gola iawn yn i Beibil oedd mam, a modryb druan fel arall, braidd.

**Beti.** Wn i fawr am i sponio hi, ond ddrysodd hi 'rioed wrth baratoi tamad i'r clâf.

**Grace.** Nâ wîr, ffowndrys fydda hi amball waith.

**Beti.** Pa wahaniaeth, pan oedd i hamcan hi mor ddâ. Wt ti'n meddwl tasa hi yn mynd i baratoi gwlêdd yno, ac yn i ffwdan yn cynnig darn o bysgodyn i'r proffwyd Jonah, ne goes ceiliog i Simon Pedar, y basa nhw'n digio wrthi hi? Chweilia i fawr.

**Grace.** Ar draws bopeth, be mae y gŵr acw am neud?

**Beti.** Wn i ddim wir. Fydda i'n meddwl weithia ma i'r Chwaral 'r eiff o. Ond fydd hi ddim yn job llawn mor barchus i bacio dan wageni rwbal 'r ol bod yn pacio dan yr *Irish Mail.*

**Grace.** Faddeuith o i'r Cwmpeini?

**Beti.** Gobeithio'r annwyl na neiff o ddim. Rydd o mo'i droed byth ar i slippars nhw, medda fo. Mae o wedi gwrthod mynd i aros at Robat Ifans i Lerpwl am fod yn rhaid iddo fynd hefo'r trên.

**Grace.** Wn i ddim pwy ydi Robat Ifans.

**Beti.** Gwyddost yn iawn, ond Robat Ifans, mab Robin Ifan, gŵr Beti Jones 'nghnithar.

**Grace.** Adra bydd o felly.

**Beti.** Chweilia i fawr. 'Rosith o ddim dwrnod yn hwy na bydd y stemars wedi dechra rhedag o Bont y Borth.

**Grace.** Mi geith ddigon o waith hefo'r ffarmwrs.

**Beti.** Wr o ddim am waith ffarm. 'Roedd Wil yn palu'r ardd y dwrnod o'r blaen ac yn agor rhesi tatws fel tasa fo'n agor *cutting railway*. Fuasa'r gwlydd byth yn dwad i'r golwg trw gymint o bridd.

**Grace.** Peth òd na fasa fo wedi dysgu tipin o Sasnag, dyn lled ifanc fel Wil Ifans.

**Beti.** Sut dysga Wil Sasnag? Fydd o byth yn mynd i gapal nag eglwys. Mae o'n rhyfeddach byth fod Robat Williams yn gwbod cin lleiad o Sasnag. Dyn mor ddarllengar, ac wedi gwrando cimint o bregetha Cymraeg.

**Grace.** Lwc nad ydi o ddim yn ych clywad chi, Beti Robaits

**Beti.** Chymrswn i mo'r byd a'i ddigio. Chlywais i ddim gair brwnt o'i ena fo 'rioed. Fydd Wil acw'n deud fod arno fo fwy o ofn deud gair mawr ynghlyw Robat Williams na'r holl giaffars hefo'u gilydd.

**Grace.** Oes, ma gynno fo riw ddylanwad rhyfadd ar bawb. Peth òd fod y bobol ifanc mor ffond o hono fo.

**Beti.** Roedd Wil acw'n deud tasa nhw heb droi Robat Williams i ffwrdd y basa'n haws madda iddyn nhw. Y dyn mwya cydwybodol, ar les y Cwmpeini, o Gaer i Gaergybi.

**Grace.** 'Daeth dim cin ddyfnad i galon 'y nhâd a chydymdeimlad i gydweithwyr.

**Beti.** Cywswn i afal yn y giaffar ar i ben i hun yn rhwla, 'dwi'n siwr baswn i'n cribo tipin ar i fwng o. Yr hen——

**Grace.** Ust ! Oes rhiwun wrth y drws ?

(*Clywir curo wrth y drws. Grace yn mynd i agor. Twmi yn dyfod i mewn*).

**Beti.** Twmi'r papur newydd fel rydwi'n fyw.

**Grace.** Be cododd chi allan ar y fath dywydd, Twmi ?

**Twmi.** Y Stesion Mastar gyrrodd fi i chwilio am Robat Williams.

**Grace.** Wrth y signal ma nhad, Twmi.

**Twmi.** Rhaid 'mod i wedi'i basio fo. Ma hi'n dywyll iawn.

**Grace.** Ga i ddwad hefo chi i chwilio am dano fo?

**Twmi.** Rydw i'n ddigon o lanc i fynd fy hûn Grace Williams.

**Beti.** Be sy gen ti i ddeud wrth Robat Williams ?

**Twmi.** Busnas dynion ydi o Beti Robaits. Ond mi gewch chi wbod am ych bod chi'n wraig i *blatelayer*. Y Stesion Mastar gyrrodd fi i ddeud wrtho fo fod wagan wedi mynd oddar y rêls yn y Stesion a'u bod nhw am weithio'r holl *draffic* ar yr *up line*.

**Beti.** Faint ydi hi o'r gloch?

**Twmi.** Rhoswch Beti Robaits mi 'drycha i.

(*Ar ol llawer o drafferth mae Twmi yn tynu* WATCH *anferth o'i boced ac yn ei dal o'i blaen*).

**Twmi.** Hannar awr wedi saith.

**Beti.** Bobol annwyl, ma gin ti watch gest gimmint a chloc Capal.

**Twmi.** *Patent levar*, o ffair y Borth. Fasach chi'n lecio gweld i pherfadd hi ?

**Grace.** Does dim amsar heno, Twmi. Cofia am 'y nhâd.

**Twmi.** Ddaw dim trên am hannar awr.

(*Ar ol trafferth mae yn agor ei* watch *a Beti a Grace yn agoshau i gael ei gweled hi*).

Sefwch yn ol Beti Robaits os gwelwch chi'n dda. Peidiwch a chwthu arni hi.

**Beti.** Mi glywis am riw longwr yn cysgu ar i *watch*, 'rydw i'n siwr 'dodd hi fawr fwy na hona.

**Twmi.** Clywch hi yn tician.

**Beti.** Cau hi Twmi, rhag ofn i ti roi dy fys yn yr injian. Fydd yna fawr o honat ti i fynd adra at dy fam os unwaith y ceith y 'lwynion cocos yna afal ynat ti.

(*Twmi yn cau ac yn cadw ei watch*).

**Twmi.** Wir, rhaid i mi fynd.

**Grace.** Ga i ddwad i ddangos y ffordd?

**Twmi.** Ma arna i ofn gneud William, y Signalman, yn *jealous*. Peidiwch a symud, os gwelwch chi'n dda. 'Rydw i gystal a chath am weld yn y nôs.

**Beti.** Glywi di'r hen fymryn.

(*Twmi yn mynd allan ac yn cau y drws ar ei ol.*)

**Beti.** Ma hi'n galad arnyn' nhw yn gorfod anfon bachgan ar y fath noson. Rhaid i mi fynd adra rwan at Wil i ddeud yr hanas.

**Grace.** Na chewch, rydw i am hwylio swpar y munud yma.

**Beti.** Pa bryd y byddwch chi yn cymryd swpar?

**Grace.** Pan fydd y trên wyth yn pasio.

**Beti.** Wrth amsar trêns byddwch chi'n hwylio bwyd?

**Grace.** Ia. Yr *Irish Mail* am amsar cinio. Yr *Express* am amsar tê, a'r trên wyth am swpar. Dos dim isio cloc pen fydd rhiwun yn byw wrth ymyl y lein.

**Beti.** Sut y gnewch chi a William pen ewch chi i fyw 'n agos i Lundan. Mi fydd y *Mail* a'r *Express* yn gimint hwyrach yno. Mi fyddwch yn cael cinio ar ol amsar tê, a swpar bora drannoth.

**Grace.** Prynu cloc fydd raid i mi, mae'n debig.

**Beti.** Ne gael cinio hwyr fel y rest o'r bobol fawr yma. Mi eiff William a ch'ditha yn f'ddigions ar slap.

**Grace.** Peidiwch a lolian Beti Robaits.

**Beti.** Mi fyddwch wedi anghofio'ch hen gyfeillion a'ch hen iaith.

**Grace.** Da chi, peidiwch a chellwar. 'Rydw i'n reit ddigalon.

**Beti.** Dim mymryn mwy digalon na minna, ond fod gin i well tafod i giddio 'ngofid.

**Grace.** 'Dos dim cimint o esgus i chi am fod yn ddigalon. Tydi'ch gŵr chi ddim wedi cyrradd oedran 'y nhâd.

**Beti.** Fydd dŷn o garictor Robat Williams ddim heb waith, Grace.

**Grace.** Na fydd am rai blynyddodd. Ond chydig o help fydd carictor i weithiwr pen aiff i freichia fo'n rhy weiniaid i gydio yn y rhaw a'r bladur.

**Beti.** Mynd a fo hefo chi i Loegar 'newch chi.

**Grace.** Mae o'n gwrthod yn lân.

**Beti.** Fasa fo'n licio mynd at Siôn fy mrawd i'r 'Mericia?

**Grace.** Mae o'n rhy hên. Er fod gynno fo feddwl uchal o ryddid y wlad honno. Gwlad a sefydlwyd gin ddynion wedi 'madal a'u gwlad enedigol o herwydd gorthrwm. Dyna fel ma gormes bob amsar yn esgor ar ryddid.

**Beti.** 'Rydw i yn lecio pobol 'Mericia, a phob peth sydd yn dwad odd yno ond amball i ddrycin ma nhw yn anfon i ni. Ma gin Wil feddwl mawr iawn o wlad sy'n tyfu cimint o 'bacco.

**Grace.** Dowch, neswch at y bwrdd.

(*Grace yn tywallt tê*).

**Beti.** Ma'n debig y caith dy dad i le yn ôl ar y lein am i waith heno.

**Grace.** Dos dim perig i'r rhai sydd miawn awdurdod byth gâl clywad. Mi gymar y giaffars mân ddigon o ofol. Un lwmp o siwgwr ta dau?

(*Yn dal lwmp o siwgwr ar lwy dê*).

**Beti.** Un go fawr a rhyw fymryn yn i sgil o.

**Grace.** Helpwch ych hûn.

**Beti.** Mi na, 'dos dim perig. Os ydi tacla'r lein yna wedi gneud y nghalon i'n drom, diolch byth, 'tydyn nhw wedi 'ffeithio dim ar 'y stumog i.

(*Cyfyd Grace yn sydyn ac aiff at y drws*).

**Grace.** Eisio gweld ydi'r niwl yn clirio. Peidiwch chi a symud.

**Beti.** Dos dim perig. Ma'r tê yma yn rhy dda.

(*Grace yn cau y drws ac yn dyfod yn ol at y bwrdd*).

**Grace.** Ydi'ch cwpan chi'n wâg?

**Beti.** Ydi. (*Grace yn llenwi'r cwpan*). Tipin chwaneg o siwgwr, Grace.

**Grace.** 'Stynnwch at y bwyd, Beti Robaits.

**Beti.** Bara dâ dros ben. Ma'r bara acw wedi dechra suro.

**Grace.** Tipin o gollad ydi hynny.

**Beti.** Gneud bara llaeth i Wil bydda i a deud ma'r llaeth sy wedi suro.

**Grace.** Faswn i byth yn chwara tricia felly hefo 'ngŵr.

**Beti.** Welis ti rioed mor fuan y dysgi di ar ol priodi, ne, mi fydd yn reit fain arnat ti.

**Grace.** Ddaru mi 'rioed ddychmygu'r fath beth.

**Beti.** Tydi Wil yn dychmygu dim chwaith, ne mi fasa wedi darfod arna i. Ma'r gwŷr yn llawar cryfach na'r gwragadd, ond, trwy drugaradd, 'tydyn nhw ddim hannar mor stim'rwg.

**Grace.** Os gynnoch chi dê?

**Beti.** Sawl cypanad ges i?

**Grace.** Chwech! Triwch hannar un!

**Beti.** Dim dyferyn rhag ofn i mi fethu cerddad adra.

(*Grace yn codi ac yn myn'd at y drws*).

**Grace.** Pwy sy'n dwad tybad? (*Yn gwrandaw ac yn cau'r drws*).

**Beti.** Paid ag agor am funud gâl i mi gadw'r llestri, rhag ofn iddo fe ddisgwyl am swpar.

(*Yn paratoi i gadw'r llestri. Grace yn troi ac yn edrych ar y bwrdd*).

**Grace.** 'Tydach chi wedi gadal dim llawar i neb.

**Beti.** Leia fyth fedrwn i.

**Grace.** Pwy sydd yna? (*Curo wrth y drws*).

**William.** Y fi. (*Grace yn agor y drws a William yn dyfod i mewn*).

**Grace.** Peidiwch a chadw'r llestri, Beti Robaits.

**Beti.** Ma hi'n siwr o'i ddyfetha fo.

**Grace.** Lle ma nhâd ?

**William.** Hefo'r *Directors*, yn y Stesion.

**Grace.** Hefo'r *Directors* !

(*Grace yn gosod cadair i William yn agos i'r tân*).

**William.** Ma gin i newydd dyddorol, ond ddechra i ddim nes i Beti Robaits gadw llai o dwrw hefo'r llestri.

(*Grace yn gafael yn Beti a'i rhoi i eistedd ar gadair. Beti yn sychu ei hwyneb a thwtio ei hun yn barod i wrandaw*).

**Beti.** Ôl reit, William.

(*Grace yn eistedd i lawr wrth y bwrdd*).

**William.** Ar ol gadal y tŷ 'ma, 'rodd Robat Williams yn cerddad trw'r cytting i gyfeiriad y *signals*, pen glywodd o rhiw dwrw fel taran. Mi ath ynta chydig ymlan, ag mi welodd fod yr eira wedi llithro ar ochor y cytting ac wedi cario carrag i lawr i ganol yr *up line*. Mi geisiodd symud y garrag, ond mi fethodd yn lân. Ynghanol ei ymdrechion mi glywodd dwrw trên yn dwad ar y lein lle 'roedd y garrag. Mi redodd ar unwaith i gyfeiriad y trên ag mi roes *fog signals* ar y rêl. Mi redodd wedyn ac mi roes un arall i lawr. Mi gychwynodd y drydydd waith ond 'r odd y trên wedi'i gyradd o, 'd odd dim amsar i rhoi hi 'n ffast ag mi

orweddodd ar y llwybyr gan ddal y *fog signal* a'i law ar y rêl nes 'r oedd lwynion yr injian bron wedi'i chyradd hi. Mi glywodd yr ergydion, a gweld y gwreichion yn neidio o'r haearn wrth i'r *brakes* weithio. Mi wydda fod y trên wedi hachub, ag mi ddiolchodd i'r nefoedd ar i linia ynghanol yr eira.

**Grace.** Mi wyddwn i cyflawna nhad i dd'ledswydd pa mor gyfing bynnag fydda'r amgylchiad.

**Beti.** Mi 'r odd o'n gwybod beth i 'neud, er na fedra fo ddim siarad Sasnag.

**William.** Mi gerddodd Robat Williams yn ol at y trên. Erbyn hyn 'rodd y dreifars o'r giard trwy help rhai o'r passinjyrs wedi symud y garrag. Ar ol clirio'r lein mi ofynodd rhiw ŵr bynheddig am y dyn odd wedi hachub nhw, ac mi aeth Jones, y Giard, a'r hen ŵr ato fo. 'Rydach chi wedi safio'n bywyda ni, medda fo wrth Robat Willliams, ag mi gewch glywad ym mhellach oddiwrth fy nghyd *Ddirectors* a minnau am hyn. Deudwch wrtho fo, Jones, medda Robat Williams, nad ydw i ddim yngwasanaeth y Cwmpeini, ac eglurwch yr achos iddo fo. Mi synwyd y gŵr bynheddig pan ddalltodd o'r amgylchiad ag mi ath a fo i'r stesion. Ma'ch tâd, Grace, wedi'i alw i'r *office* i wynebu'r giaffar newydd a'r *Directors*, ag ma'r Stesion Mastar hefo nhw fel cyfieithydd. Wn i ddim be sy wedi pasio, gan 'y mod i wedi rhedag yma i ddeud yr hanas wrthoch chi. Mi

wyddwn i y teimlach chi'n bryderus am i'ch tad ddwad yn ol pan welach chi fod y lleuad yn twnnu a'r niwl wedi codi.

**Grace.** Mi 'rydw i'n diolch o 'nghalon i chi. Ydi, trwy drugaradd, ma'r niwl yn codi ym mhob cyfeiriad erbyn hyn.

**Beti.** Mae hi'n ddigon tywyll ar Wil acw o hyd. Tasa fo wedi mynd at y *signals* pen ddaru chi ofyn iddo fo, William, fo fasa wedi achub y trên a chael y clôd, ond, hên lob oedd Wil yrioed.

**William.** Chi odd fwya yn erbyn i Will Ifans fynd at y *signals* Beti Robaits.

**Beti.** Ma'n anodd gin i goelio mod i mor wirion a hynny.

**William.** Rydw i'n deud perffaith wir.

**Beti.** Yn sicir welwch chi, dydw i ddim yn cofio. Ond o ran hynny mae ngho' i fel gogor y dyddia yma.

**Grace.** Be ydi'r gwaeddi yna?

(*Y tri yn gwrandaw, a Twmi'r papur newydd yn rhuthro i mewn i'r ystafell gan chwifio'i gap*).

**Twmi.** Hwrê! Hwrê! Gwaeddwch hwrê, Beti Robaits.

**Beti.** Be sy wedi cynhyrfu y tylwth têg, tybad?

**Twmi.** Robat Williams sy wedi câl i le 'n i ôl, ac ma'r holl Bentra'n gwaeddi hwrê !

**William.** Charwn i ddim bod yn 'sgidia'r giaffar newydd yna heno.

**Beti.** Gobeithio na cheith o mo'i anfon i ffwrdd cyn i mi ffarwelio a gwallt i ben o.

**Grace.** Ydi nhad ar y ffordd adra, Twmi ?

**Twmi.** Mi fydd yma cin gyntad ag y ceith o ddwad gin y bobol. Ma nhw fel tasa nhw am i fyta fo.

**Grace.** Ma'n well i mi ail osod y bwrdd erbyn y daw o. 'Stedda yn rhwla oddar y ffordd, Twmi.

**Beti.** Ga i roi help llaw i ti, Grace?

**William.** Gadwch iddi, Beti Robaits. Mi ŵr sut i blesio Robat Williams yn well na neb arall.

**Beti.** Felly ! Fydd hi ddim yr hir cyn gwbod mesur dy droed ditha chwaith, machgian i.

(*Grace yn paratoi bwyd. William a Beti Roberts yn eistedd a Twmi yn codi ac yn sefyll wrth y drws*).

**Twmi.** Oes arnoch chi ddim blŷs mynd a'r hanas i Wil Ifans, Beti Robaits ?

**Beti.** Taw ! y mymryn, cin i mi d'wthio di allan trw' dwll y clô.

**William.** Ma'n siŵr y cara Wil Ifans glywad.

**Beti.** Mi geith ar ôl i mi glywad yr hanas i gid fy hûn gynta. Chlywais i ddim eto ond fod o wedi safio'r tren.

**Twmi.** Mi ddeudis i dipin o'r hanas wrthoch chi.

**Beti.** Dim gair ond gweiddi Hwrê! Hwrê! 'Dos dim mwy o newydd yn dy stori di nag sydd yn y papura 'na wyt ti'n werthu.

**William.** Wir, ma hi yn mynd yn hwyr.

**Beti.** Paid a phoeni, William. Mi gei di ddigon o amsar hefo Grace eto.

(*Twmi yn agor drws y tŷ ac yn gweiddi*).

**Twmi.** Hwrê! Dyma yr hen gongcring hiro wedi dwad.

(*Robert Williams yn dyfod i mewn i'r ystafell a phawb yn ei longyfarch. Grace yn cymryd ei het a'i gôt. Beti Roberts yn paratoi y gadair freichiau iddo. Yntau yn eistedd a'i wyneb at y dorf ac yn amneidio i'r lleill eis- tedd. Grace wrth y bwrdd yn sefyll. Twmi wrth y drws a'r ddau arall yn eistedd*).

**Grace.** Diolch am eich cael adra yn saff, 'nhâd.

**R. W.** Oes, mae gynon ni le mawr i ddiolch, ngenath i.

**William.** Mi gywsoch ych croesholi'n galad, mae arna i ofn.

**R. W.** Mi 'rydw i wedi dyfetha fy Sasnag hefo nhw. Ond 'rodd y Drector yn ŵr bynheddig mor hynaws 'rodd pawb yn teimlo yn reit hamddenol yn i gwmpeini o, ond yr hen giaffar yna.

**Beti.** Eitha gwaith, yr hen scrwb budur.

**R. W.** Mi geith i yrru adra at ei deulu i hun, rydw i'n credu.

**Beti.** Tywydd têg ar i ol o.

**Twmi.** Hwrê!

**Grace.** Da chi! porthwch dipin llai, ne mi ddryswch bregath 'y nhad.

**R. W.** Paid a'i dwrdio nhw, 'ngenath i. Ar ôl fy holi a 'nghroesholi, ac i'r Stesion Mastar gyfieuthu, fe droes y Drector at y giaffar newydd ac mi ddeudodd betha chwerwon wrtho fo. Wir, ydw i ddim yn siŵr baswn i yn lecio i hail adrodd nhw, taswn i yn i cofio nhw.

**Beti.** Dos dim isio, Robat Williams. Mi wyddon ni'n lled dda erbyn hyn be fydd y Saeson yn ddeud pan fydda nhw wedi gwylltio.

**R. W.** Y diwadd fu i'r gŵr bynheddig droi ata i a deud fod o yn dymuno i mi aros yng ngwasanaeth y Cwmpeini. Mae'n ddrwg gin i nas galla i ufuddhau i'ch cais, meddwn inna. Rydw i'n erfyn arnoch chi,

medda fo wedyn, ddwad yn ol at y gwaith 'rydach chi wedi i gyflawni am gymaint o flynyddodd gyda'r fath ofal. Ma'n wîr annodd ych gwrthod, meddwn inna wedyn, ond yn gydwybodol, rhaid gneud.

**Beti.** Robat Williams bach ydach chi yn dechra drysu?

(*Robert Williams yn codi ar ei draed gan wynebu y gynnulleidfa*).

**R. W.** Ma llawar o *blatelayers* y Cwmpeini, Syr, meddwn i wrtho, yn euog o'r un bai a minna, sef i bod nhw yn Gymru uniaith ac wedi colli i lle mewn canlyniad. Dynion fuont yn onast y cyflawni i dyledswydd am flynyddodd. Dynion na fuo 'rioed 'run gŵyn yn i herbyn. Amheuwyd yrioed mo'i diwydrwydd, i medar na'u gonestrwydd nhw. Ma nhw heno ar y clwt, a rhai o honyn nhw, 'r ydw i'n ofni, na wyddan nhw ddim ple i droi i ynnill i bara. Ac hyd nes y ceith fy nghydweithwyr yr un cynnig ag a roddir i minna, 'dalla i ddim yn gydwybodol fynd yn ôl ar y lein.

**Beti.** Da iawn, Robat Williams. Rodd Wil yn deud bob amsar nad odd dim gwlanan yn ych cyfansoddiad chi.

**Grace.** Be fuo'r diwadd, 'nhad?

**R. W.** Addo ymchwiliad trwyadl fory. 'Rydw i yn credu y byddwn i gyd yn mynd yn ôl at yn gwaith ddechra'r w'thnos.

**Beti.** Ystyn fy *shawl* i mi, Grace, gâl i mi fynd a'r hanas i Wil.

(*Grace yn rhoddi* shawl *am dani a Beti yn myned tua'r drws gan droi yn ol at Robert Williams*).

**Beti.** Nos dawch yr hen gyfaill ffyddlon. Mi gofia i am danoch chi, tra bydd, tra bydd—tafod yn y nghêg i.

(*Yn mynd allan a Twmi yn symud*).

**William.** Wyt titha am fynd?

**Twmi.** Ydw, rhag ofn bod nhw yn gneud colcarth tua'r stesion. Nos dawch, Robat Williams. Nos dawch, Grace. Nos dawch, William. (*Yn siarad yng nghlust William wrth basio*). Cymrwch ofol o Grace!

(*Twmi yn rhedeg allan a William yn bygwth ei daro*).

**William.** Wir, rhaid i minna fynd.

**Grace.** Rhoswch am dipin bach.

**William.** Beth os oes fy eisio tua'r stesion?

**R. W.** Ia, well i chi fynd, William.

**William.** Be ddeudwch chi, Grace?

**Grace.** Gnewch eich d'ledswydd.

**William.** Ar ol siampal Robat Williams mi fydda yn gwilydd i neb neud llai.

**R. W.** Nos dawch, William.

(*Grace yn symud ac yn ffarwelio a William wrth y drws. Mae yn gwylied William yn myned allan. Robert Williams yn agor ei lyfr. Grace yn dyfod yn ol ar ol cau'r drws*).

**Grace.** Ma'r rhew wedi mynd, 'nhâd.

**R. W.** Ydi, a'r niwl wedi mynd, a'r giaffar newydd wedi mynd, ond, mae oes y byd i'r "Hen Iaith."

**LLEN.**

# "Y Melinydd"

GAN

H. O. HUGHES.

# *Y MELINYDD.*

---

*Cymeriadau.*

DAVID OWEN - Hen lanc, 40 oed, hynod flêr yr olwg arno. Ei ddillad, ei wallt a'i wyneb yn llwyd oddiwrth lwch y felin.

MARY - - Geneth, 24 oed, wedi dod allan am dro gyda dwy eneth arall. Ei gwisg yn hynod drefnus a thwt.

# Y Melinydd

---

*Tŷ'r Melinydd, wedi ei ddodrefnu ar ddull bwthyn, ond fod popeth yn hynod flêr. Llestri tê a dysglau ar y bwrdd ar draws eu gilydd. Padell ar un gadair a chadach llestri ar ei chefn. Dillad David Owen a'i het lwyd ar gadair arall. Côt, gwasgod, a chlôs ar y llawr. Hen lyfrau, a phibell, a drych, a brwsh gwallt ar y shilff wrth ben y tân. Darn o dorth a chyllell ar fwrdd arall. Popeth wedi hanner eu cuddio gan lwch. Tepot a thecell wrth y tân. Ysgub lawr wrth y pared. Drws yr ystafell ar yr ochr chwith i'r llwyfan yn agos i'r tân.*

*Mary (geneth ieuangc) yn dyfod i mewn yn sydyn, wedi ei gwthio i'r ystafell, a chlywir y drws yn cael ei gau tu cefn iddi. Try hithau a rhêd yn ôl a cheisia agor y drws, ond metha. Gwelir oddiwrth ei gwisg mae wedi dyfod allan am dro y mae.*

---

**Mary.** (*Yn ceisio agor y drws*). 'Gorwch 'gennod! Be di'ch meddwl chi yn cau'r drws arna i.

(*Clywir lleisiau genethod yn chwerthin o'r tu allan*).

Nid matar i chwerthin ydi cael fy nghau mewn tŷ hen lanc, nad oes dim dynas yn cael dwad dros i orddrws o.

(*Chwerthin i'w glywed drachefn*).

'Fasa waeth bod mewn ffau llewod! Beth os ca'i nal yma. (*Yn sefyll wrth y drws*). Maggie bach, 'gorwch. (*Dim ateb*). *All right*! mi ddeuda i wrth Robert hefo pwy yr aethoch chi am *walk* nos Ferchar! (*Yn fwynaidd*) 'Gorwch gennod bach, *please*. (*Yn sarug*) O'r gora, peidiwch, yr hen betha cwta, gwael, hyllion i chi.

(*Mae yn gwrando, ond yn clywed dim. Yna yn eistedd ar gadair gan gymeryd ei chadach poced fel pe bai am wylo*).

Os daw y M'linydd i mewn mi feddylith mae dwyn rhwbath 'rydw i—ond, does yma ddim llawar i ddwyn heblaw llwch. Be' ddaw o hona i? (*Yn cuddio ei hwyneb, yna yn dywedyd yn benderfynol*). 'Tydw i ddim am grio, mi ddangosa i nad os arna i ddim ofn unrhyw ddyn.

(*Yn cerdded ar hyd yr ystafell gan sylwi ar flerwch y lle*).

Bobol annwyl! Mae yma le blêr, mi glywis na fuo 'run ddynas yma ers blynyddoedd. (*Yn canfod llwch ar ei menyg*). Ac mae'n amlwg fod hynny'n wir. (*Yn symud at shilff ger y tân gan afael mewn pibell*). Cetyn reit dda, ond fod o'n fudur. (*Yn ei ddal dan ei thrwyn, a'r llwch yn gwneuthur iddi besychu, yna yn ei thaflu yn*

*ol ar y shilff*). Mae gormod o ysbryd fy mam yna i, i fyw mewn llwch heb geisio twtio tipin.

(*Yn tynnu ei het, ei menyg, a'i jacket, gan eu gosod yn ddestlus ar gadair, yna yn torchi ei llewis, gafael mewn ysgub llawr a dechreu ysgubo, y llwch bron a'i mygu*).

Llwch oesol! Mae ma le difrifol. (*Yn taflu dail o'r tepot ar y llawr gan ysgubo drachefn. Yn codi dilledyn oddiar y llawr*). Côt dda ynghanol y llwch! Feddyliodd rhagluniaeth 'rioed i ddyn fyw heb wraig i edrach ar i ôl o. (*Yn rhoddi y gôt yn dwt ar gadair ac yn codi gwasgod i fyny*). Dim ond tri botwm,—gwasgod hen lanc mae'n ddigon amlwg. (*Yn rhoi y wasgod ar y gadair, ac yn codi trowsus a thwll mawr mewn un penlin; yn gwthio ei llaw trwy y twll*). Os gwisgith o hwn, mae o'n siwr o'r cricymala. (*Yn codi het a'i dodi ar y dillad*). Fuo rhein yrioed mor dwt ar ol gadael dwylo'r teiliwr. Mi ddylswn chwilio'r pocedi. Mi fydd mam yn gneud bob amsar. (*Yn edrych ar y llestri*). Digon o lestri i lenwi trol potiwr, a'r cwbwl eisio i golchi.

(*Yn rhoi dŵr o'r tecell mewn llestr ac yn dechreu golchi'r llestri. Mae'r locket sydd yn hongian wrth gadwyn am ei gwddf ar y ffordd. Tyn y gadwyn oddiam ei gwddf gan ei dodi ynghyd a'r locket ar y shilff gerllaw y bibell. Dechreua ganu "Tôn y Melinydd" wrth olchi'r llestri*).

Os doi di, fy anwylyd,
I'm gwneud yn ddedwydd ŵr,
Cei gariad y melinydd
Tra try yr olwyn ddŵr.

(*Yn araf agorir y drws, a daw David Owen, y Melinydd, i mewn. Edrycha yn syn ac yn ffyrnig ar Mary, yr hon sydd yn hollol anwybodol o'i bresenoldeb. Golwg blêr sydd ar David, ei ddillad a'i wyneb yn llwyd oddiwrth flawd y felin. Daw ymlaen, gan sefyll rhwng Mary a'r gadair lle dodasid ei jacket a'i het*).

**David.** (*Mewn llais awdurdodol*). Hylo! Be 'dach chi yn neud yma?

(*Mary yn dychryn ac yn rhoi bloedd. Yna yn symud o'r naill du ac yn frysiog yn tynnu ei llewis i lawr gan edrych yn ddychrynedig*).

**Mary.** Mi a'i allan y munud yma.

(*Ceisia afael yn ei het, ond saif y melinydd rhyngddi a'r gadair gan ei rhwystro*).

**David.** O ble y daethoch chi?

**Mary.** Oddi allan, wrth gwrs.

(*Ceisia eto gyrhaedd ei het, ond mae David yn symud y gadair ac yn sefyll rhwng Mary a hi*).

**David.** Sut y daethoch chi i miawn?

**Mary.** Os ca i fynd allan am funud, mi ddangosa i chi sut y dois i miawn.

**David.** Felly.

**Mary.** Ga i 'nillad os gwelwch chi'n dda, Syr?

**David.** Na chewch.

**Mary.** O'r gora, mi a i allan hebddyn nhw.

(*Rhed Mary at y drws gan geisio ei agor, ond chwardda y Melinydd am ei phen*).

**David.** 'Gorith y drws ddim. Mae o wedi neud i ddal lladron.

**Mary.** (*Yn ddigalonnus*). Ydach chi'n meiddio 'ngalw i yn lleidar?

**David.** Wn i ddim nes ca'i weld be sy yn ych pocad chi.

**Mary.** Rhag cwilidd i chi'n fy insultio i.

**David.** Trowch ych pocad tu chwynab allan.

**Mary.** Na wnaf. Rhag cwilidd i chi, ddyn.

**David.** O'r gora, mi geith y plisman ych chwilio.

**Mary.** Y plisman! Be ddaw o hona i. Does gin i ddim yn perthyn i chi. Drychwch arnyn nhw.

(*Yn dodi cynnwys ei phoced ar y bwrdd. Y Melinydd yn symud ymlaen, hithau yn eu dal i fyny un ac un*

*o'i flaen, fel y gall y gynulleidfa hefyd eu gweled. Mary yn dal pocket handkerchief o'i flaen*).

**David.** Rhy fechan i fynd am fy nhrwyn i.

**Mary.** Mae gynoch chi drwyn go fawr. (*Yn dangos gwniadur*). Beth am hwn? (*Y Melinydd yn ysgwyd ei ben*).

**David.** Beth sy yn y llyfr yna? (*Mary yn agor needle-case bychan*). Del ofnadwy. Be 'dyn nhw?

**Mary.** Nydwydda dur, a phinna, a siswrn bach. (*Yn edrych arno*). Fuo gynnoch chi 'run 'rioed. Ma'n hawdd gweld wrth ych dillad chi.

(*Yn agor ei phwrs. Y Melinydd yn edrych i mewn iddo*).

**David.** Tair ceiniog wen a *stamp* dima. Rydach chi yn gweuthog iawn. Yda chi newydd werthu mochyn?

**Mary.** Naddo, ond rydw i wedi dwad i miawn i'r cwt. (*Mae yn dychwelyd y pethau i'w phoced*).

**David.** Be sy'n y pocedi erill?

**Mary.** Does gen i ddim ond un bocad.

**David.** Dim ond un bocad!

**Mary.** Ydach chi'n fodlon i mi fynd?

**David.** Be nath i chi dorri miawn i'r tŷ, a drysu petha. Fedra i byth gael hyd i ddim 'rwan.

**Mary.** Twtio tipin bach, a chodi'r dillad oddiar y llawr.

**David.** Doedd dim isio i symud. 'Roeddan nhw'n iawn lle roeddan nhw.

**Mary.** Os na cha i fynd allan, mi weudda i ar fy ffrindia.

**David.** Ma nhw wedi rhedag am eu bywyd.

**Mary.** Roeddan nhw yn lwcus iawn yn medru.

**David.** Gorffennwch ych gwaith. Dysgu i chi dorri i miawn i nhŷ i.

**Mary.** Be di'ch meddwl chi?

**David.** Gorffennwch olchi'r llestri.

**Mary.** Na naf!

**David.** Rydach chi wedi golchi mwy na'u hannar nhw.

**Mary.** Gneud hynny i blesio f'hun ddaru mi.

**David.** Gorffennwch nhw i 'mhlesio inna.

**Mary.** Na naf.

**David.** O'r gora, does arna i ddim brys.

(*Yn eistedd yn hamddenol ar gadair, gan oleu ei getyn*).

**Mary.** Na finna, chwaith.

(*Yn plethu ei breichiau, ac eistedd gyferbyn ag ef*).

**David.** Pa faint o amser ydach chi am aros fel yna

**Mary.** Rhiw wythnos ne ddwy, fel byddai'n teimlo.

**David.** Felly! Ma digon o blwc yn 'ngennod yr oes yma.

**Mary.** Oedda nhw'n wahanol pan oeddach chi'n ifanc, drigian mlynadd 'nol?

**David.** 'Roeddwn i heb y ngeni 'r amsar honno.

**Mary.** Sut y medrwn i gesio'ch oed chi trw gimmint o lwch?

**David.** 'Rydw i wedi colli llawar o *sport* wrth gadw merchaid allan o'r tŷ 'ma.

**Mary.** Ond 'rydach chi wedi safio llawar o draffarth i'r merchaid.

**David.** 'Roeddach chi'n lecio cymryd traffarth cin i mi ddwad i miawn.

**Mary.** Plesio f'hun oedd hynny, 'rodd yma le mor flêr. (*Yn edrych ar y llestri*). Ga'i orffan y 'ngwaith?

**David.** Na, 'dos dim isio.

**Mary.** Fedra i ddim gadal 'y ngwaith ar hannar i orffan. Closiwch oddar y ffordd. (*Yn rhoi hergwd iddo, ac yn ail ddechreu golchi y llestri*).

**David.** Un garw am ych ffordd ych hun ydach chi mi welaf. Un o ferchaid y syffragetars ydach chi?

**Mary.** Tendiwch chi, dos dim tryst na ro'ich tŷ chi ar dân os na gorwch chi'r drws.

**David.** Dos dim brys. Dydw i ddim am ych troi chi allan.

**Mary.** Fydd dim isio. Dim ond agor y drws.

**David.** Mi nath un enath ffals dro budur hefo mi.

**Mary.** 'Rodd yn gwilidd mawr iddi hi.

**David.** Mi ddigis i wrth holl ferchaid Efa o'i hachos hi.

**Mary.** Tro gwael odd condemni'r holl *stock* ar ol gweld dim ond un patrwm.

**David.** 'Roedd hi'n wahanol iawn i chi.

**Mary.** Felly! (*Yn estyn y cadach llestri*). Sychwch y llestri ar ôl i mi golchi nhw.

**David.** Mi 'na i ngora.

(*Yn cymeryd plât mawr, ac yn gafael ynddo i'w sychu. Y mae yn hynod drwsgl. Y plât yn syrthio o'i law ar y llawr ac yn torri yn ddarnau*).

**Mary.** Ydi'r grepach arnoch chi? (*Y ddau yn codi'r darnau*).

**David.** Mae digon o lestri eto yn y siambar. (*Yn ail ddechreu eu gwaith*).

**Mary.** Triwch fod yn llai trwsgwl y tro nesa.

**David.** Rydach chi'n debig i mam.

**Mary.** Tybad mod i'n edrach nhên iawn?

**David.** Am ych bod chi'n i golchi nhw mor lân. (*Yn ochneidio*). Tlws iawn hefyd.

**Mary.** Beth?

**David.** Y pictiwr ar y gwpan yma.

**Mary.** (*Yn siomedig*). O! Hynny oeddach chi'n feddwl?

**David.** Welis i mo'r pictiwr ar ol i mam farw.

**Mary.** Faint sy ar hynny?

**David.** Rhyw chwe blynadd.

**Mary.** Ac heb olchi'r llestri ars chwe blynadd. Cariwch y rhein at y dressar.

(*David, gyda thrafferth mawr yn cario'r llestri, a'u dodi ar y bwrdd*).

**David.** Gwaith reit galad a thorris i ddim un.

**Mary.** (*Yn awdurdodol*). Brysiwch! Styriwch! (*Mae yn dyfod a'r gweddill ati*).

**David.** Peidiwch a 'nychryn i rhag ofn i mi dorri rhain eto.

**Mary.** Ma nhw'n edrach yn dipin gwell.

**David.** Golwg dda dros ben sy arnyn nhw.

**Mary.** Ystynnwch fy het a'm *jacket*, os gwelwch yn dda.

**David.** Be di'r brys? Ma hi'n gynnar iawn.

**Mary.** (*Yn awdurdodol*). Fy het.

(*David yn ei hestyn yn anfodlon, ac yn dal y jacket tra rhydd Mary ei het am ei phen, yna yn ei helpu i'w rhoddi am dani*).

**David.** 'Newch chi ddim addo dwad yma i dwtio tipin bach eto?

**Mary.** P'run di'ch dwrnod golchi chi?

**David.** Fu gin i 'run 'rioed.

**Mary.** Rhaid cael dwsin i neud y gwaith felly.

**David.** Na! 'Rydach chi'n ddigon ych hun. Be di'ch henw chi?

**Mary.** Enw hyll iawn. Ddeuda i mono fo.

**David.** Mae amball ferch ifanc ddel ag enw ddigon hyll arni hi. Mae'n debyg ma dyna'r rheswm ma nhw mor barod i newid i henwa.

(*Mary wedi twtio ei hun, yn barod i gychwyn ar ol rhoi ei menyg. David yn ei gwylio yn ofalus*).

**Mary.** Agorwch y drws.

**David.** 'Rodd yn annodd iawn gin i ollwng unrhyw ferch i'r tŷ yma, ond mae'n anhawsach o lawar gin i agor i'ch gollwng chi allan.

**Mary.** Faswn i'n meddwl ma parod iawn fasa chi i ollwng lleidar allan.

**David.** 'Doeddwn i ddim yn meddwl hynny am danoch chi a deud y gwir, rwan.

**Mary.** O'r gora. Ysgydwch law. (*Yn ysgwyd dwylaw a'u gilydd*).

**Mary.** Ffarwel !

(*Mary yn mynd allan. David yn edrych ar ei hol, yna yn cau'r drws a golwg ddigalon arno. Yn ochneidio, ac yna yn eistedd ar gadair*).

**David.** Fuo mi rioed yn teimlo mor ddigalon. Wn i ddim be di'r achos. Fel taswn i wedi colli rhwbath, wn i yn y byd be chwaith. Tybad mod i'n edrach yn drigian oed.

(*Yn symud ac yn edrych yn y drych*).

Llwch y felin yn rhoi lliw henaint.

(*Yn gafael mewn cadach ac yn sychu y llwch oddiar ei wyneb ; yna yn brwshio ei wallt a rhoi colar lân. Edrych yn y drych a gwêl fod golwg ieuengach arno*).

Gresyn ofnadwy iddi hi ngweld i mor flêr, ond wela i byth moni hi eto, mi wn. Dos dim i neud ond cesio tynnu cysur o'r cetyn cwta.

(*Yn chwilio ei bocedi am ei bibell ond yn methu dyfod o hyd iddi. Yna yn estyn am y bibell ar y shilff ac yn canfod locket Mary wrth ymyl y bibell*).

Hylo! Locet aur, a *chain* aur hefyd. Sut ceith hi nhw? Wn i 'ny byd mawr yma be ydi 'i henw hi. Ella fod drecsiwn yn y locet.

(*Yn agor y locket ac yn darllen*).

"Rhodd i Mary oddiwrth Tom." (*Yn brudd*). Roeddwn i'n ofni fod gynni hi gariad. (*Yn syllu ar y llun*). Llun sowldiwr. Yr hen Welsh Ffiwsiliars yna eto. Ma nhw ar y blaen bob amsar. Be ma'r gennod 'n i weld yn y cotia cochion tybad? Ond felly ma nhw. (*Yn syllu ar y llun*). Un hyll ofnadwy hefyd; gwynab main, tena, a mwstas fel llafn bladur ar i draws o. Criadur disylw iawn, ac yn edrach cyn llwyted a sach peilliad. Tydi o ddim gwerth edrach arno fo. Y gôt goch ydi'r peth. Mae o yn lwcus iawn yn câl genath mor fedrus a hardd yn gariad.

(*Yn cau y locket. Clywir cnoc ar y drws. Gwelir y drws yn agor a Mary yn dyfod yn ol*).

**Mary.** Maddeuwch i mi am ddwad yn ol. Wedi colli fy locet 'rydw i.

**David.** 'Rydach chi wedi cynhyrfu 'n arw.

**Mary.** Ma gin i afal mawr yni hi.

**David.** Ma hynny'n amlwg iawn. (*Yn dal y locket o'i blaen*). Dyma hi.

**Mary.** Mae'n dda gin i chael hi. Diolch yn fawr i chi.

**David.** (*Yn ei rhoddi iddi*). "Rhodd i Mary oddiwrth Tom."

**Mary.** Beth odd ych busnas chi 'n i hagor hi?

**David.** Edrach odd enw a drecsiwn tu miawn. Wyddwn i yn y byd lle i hanfon hi.

**Mary.** Newch chi fadda i mi am fod mor groes. 'Dodd dim modd gwbod heb i hagor hi.

**David.** Peidiwch a poeni. Rhaid i ddyn ddiodda petha bryntach o lawar cyn bydd o wedi cyrradd trigian oed.

**Mary.** Sut y drysis i gimint, 'tydach chi ddim yn edrach yn ddeugian oed rwan. Be sy wedi gneud cimint o wahaniaeth ynnoch chi?

**David.** *Wash*, a brwsh, a cholar lân.

**Mary.** Cofiwch chitha beidio esgeuluso y *wash* a'r brwsh lawn cimint yn y dyfodol.

**David.** Pwy ydi o—gŵr y gôt goch?

**Mary.** Ond Tom ydi o.

**David.** 'Tydw i fawr nes i'r lan.

**Mary.** Mi rydw i yn ffond iawn o Tom.

**David.** Felly gallswn i feddwl.

**Mary.** Wedi tyfu fyny hefo'n gilydd, heb ffrae erioed, nes y daru o listio at y sowldiwrs.

**David.** Yr hen stori,—ffrae, ac wedyn listio.

**Mary.** Sowldiwr odd 'i dad, a phan dorrodd y rhyfal mi fynnodd Tom bach fynd at y sowldiwrs.

**David.** Tom bach, yn wir.

**Mary.** Gofid mawr odd i mi, pan ath Tom i ffwrdd a phryderus iawn oeddwn i wrth edrach am i enw fo ymysg y cleifion a'r lladdedigion.

**David.** Gobeithio 'i fod o'n gwerthfawrogi 'ch gofal a'ch pryder.

**Mary.** Charwn i byth fynd trw gimint o brydar eto

**David.** Rhaid i chi neud os priodwch chi sowldiwr.

**Mary.** Na i byth briodi sowldiwr.

**David.** Beth!

**Mary.** Ma bod yn chwaer i sowldiwr yn llawn digon o boen.

**David.** Nid ych cariad ydi Tom felly?

**Mary.** Nagi. 'Funig frawd. Tydach chi ddim yn i weld o'n debig i mi?

(*Mary yn agor y locket a'i rhoddi iddo. David yn edrych yn syn ar y llun*).

**David.** Mae o run fath a chi 'n union. Welis i ddim dyn harddach yrioed.

(*Yn rhoi y locket iddi, ac yn rhedeg at y drych gan frwshio ei wallt*).

**Mary.** Be 'dach chi neud?

**David.** Brwshio ymaith chwanag o flynyddodd f'ein ios.

(*Mary yn dyfod yn ol ato*).

**Mary.** Mae'n dda gin i 'ch bod chi'n lecio Tom.

**David.** Dos dim modd peidio. Y dyn hardda welis i 'rioed. Y mwstas neisia hefyd. Be sy'n gneud i'r mwstas sefyll allan felna—cŵyr crydd?

**Mary.** Mae o'n cael ei styriad yn debig i mi.

**David.** Welis i ddim cêg ddelach 'rioed, ond ych cêg chi.

**Mary.** 'Rydw i am roi'r *locket* am 'y ngwddw rhag ofn i cholli hi eto.

**David.** Gadwch i mi i rhoi hi'n i lle. Dyna hi.

(*Yn rhoi'r locket am ei gwddf ac yn tynnu pwrs o'i boced*).

**Mary.** Nos dawch! Rhaid i mi fynd.

**David.** Nid cyn i mi roi presant bach i chi.

**Mary.** Gobeithio nad ydach chi ddim am f'insultio trwy gynnig arian i mi.

**David.** (*Yn dal modrwy rhwng ei fysedd*). Ma hon yn fodrwy werthfawr iawn yn 'y ngolwg i. Mi fu'n eiddo i mam unwaith. (*Yn ei rhoddi iddi, hithau yn edrych arni a'i hedmygu*).

**Mary.** Ma hi yn fodrwy hardd.

**David.** Welis i neb eto 'n deilwng i gwisgo hi ond chi.

**Mary.** Tydw i ddim yn teilyngu rhodd mor ddrud.

**David.** Gadewch i mi farnu hynny.

**Mary.** Diolch yn fawr i chi.

**David.** Cofiwch am hen lanc o f'linydd unig amball dro, wrth edrach arni hi.

**Mary.** 'N wir rhaid i mi fynd. Mae hi'n dechra twllu a'r ffordd ymhell.

**David.** Nagi! Noson ola, braf ydi hi heno.

**Mary.** Ma'r ffordd i'r pentra 'n unig iawn.

**David.** Nagi. Ffordd lydan reit braf ydi hi.

**Mary.** Ydach chi'n meddwl i bod hi'n saff i adal i mi fynd adra f'hunan?

**David.** Bobol anwyl! Nag ydi. Lle mae nghôt ora i?

(*Tra chwilia David am ei gôt rhydd Mary y fodrwy ar ei bys gan edrych arni, yna yn helpu David i roi*

*ei gôt am dano ond yn cael peth trafferth i'w chael i'w lle. Ar ol ei dwtio ac estyn ei het iddo, David yn agor y drws iddi fynd allan gyntaf, yna yn gwneud ei hun yn ddel yn y drych ac yn ei dilyn allan).*

## LLEN.

UNIVERSITY OF ILLINOIS-URBANA

3 0112 073205632